Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru

**Susan Pember, Helen Tilley, Jack Price, Larissa Peixoto Gomes**

Rhagfyr 2021

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisïau blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'r Ganolfan yn:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisïau, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio polisïau a'u rhoi ar waith.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan, sef [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Y cyd-destun | 7 |
| Gweledigaeth ar gyfer dysgu gydol oes yng Nghymru | 13 |
| Hawliau | 22 |
| Taro cydbwysedd rhwng darpariaeth gyffredinol a thargedu grwpiau penodol | 28 |
| Rhwystrau i ddysgu a chyfranogi | 33 |
| Cydbwyso amcanion economaidd a chymdeithasol | 38 |
| Rolau a chyfrifoldebau | 42 |
| Cefnogi sefydliadau i gynyddu cyfranogiad | 51 |
| Cymharu'r cynnig Cymreig â rhannau eraill o'r DU | 54 |
| Casgliad | 61 |
| Argymhellion | 63 |
| Cyfeirnodau | 66 |
| Atodiad 1 – Cyfranwyr | 72 |

# Crynodeb

- Nod yr adroddiad hwn yw cefnogi'r broses o weithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) fel y'i sefydlwyd ym Mil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2021.

- Mae'n syntheseiddio tystiolaeth ar bwysigrwydd dysgu gydol oes, ac yn cynnig diffiniad o ddysgu gydol oes y gallai Llywodraeth Cymru ei fabwysiadu, gyda'i brif neges yn tynnu oddi ar UNESCO (2020): '**Cymru, y wlad dysgu gydol oes; ar gael i bawb, a hynny ym mhob cyfnod, ac ym mhob cylch o fywydau pobl.'**

- Mae'r adroddiad yn awgrymu set o hawliau ar gyfer addysg a sgiliau ôl-16, a fydd yn sail i strategaeth ar gyfer dysgu gydol oes. Bydd sefydlu cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant yn bwysig o ran cyflawni hyn.

- Mae'r adroddiad yn amlinellu dulliau gwahanol y gellir eu mabwysiadu i sicrhau bod yna synergedd rhwng yr hyn a gynigir, gofynion unigolion, a'r farchnad swyddi. Mae'n galw am gydbwysedd rhwng dysgu oedolion, addysg uwch ac addysg bellach.

- Mae'r adroddiad yn argymell atebion ar gyfer goresgyn rhwystrau i ddysgu. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd darpariaeth ddaearyddol deg i unioni nifer isel y dysgwyr mewn rhai ardaloedd yng Nghymru.

- Mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru, o fewn cynnig dysgu gydol oes cynhwysfawr, yn blaenoriaethu'r rhai 16-18 ac 19-24 oed sydd â sgiliau hanfodol gwael, nad ydynt yn meddu ar lefel alwedigaethol 2 a 3, ac sydd mewn perygl o gael eu diswyddo.

- Mae hefyd yn argymell strategaeth gydariannu ar gyfer cyfoethogi a rhagnodi cymdeithasol, ac, yn achos lefel 4 ac uwch, un sy'n darparu cymorth ar gyfer ffioedd a chynnal a chadw.

- Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd llywodraeth gydgysylltiedig, ac yn argymell trefniadau strategol newydd sy'n pwysleisio llywodraethu agored a pherthnasoedd ymddiriedus rhwng sefydliadau.

- Dylid rhoi'r hyblygrwydd mwyaf posibl i sefydliadau lleol ymateb i anghenion economaidd neu gymdeithasol lleol yn eu darpariaeth, ar y cyd â chyflenwi cynnig cynhwysfawr.

- Bydd sefydlu canlyniadau a thargedau y gellir monitro perfformiad yn unol â nhw yn bwysig i sicrhau bod polisïau'n cyflawni eu hamcanion dymunol.

# Cyflwyniad

Mae yna hanes hir yn sail i'r cysyniad o 'addysg gydol oes', hanes y gellir ei olrhain i’r diwygiadau a’r mudiadau addysg oedolion ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae dysgu gydol oes bellach wedi ailymddangos ar yr agenda ryngwladol gyda seithfed Gynhadledd Ryngwladol Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) ar Addysg Oedolion (CONFINTEA) yn cael ei chynnal yn 2022. Mae llawer o wledydd yn ystyried dysgu gydol oes yn rhan o'r ateb i ystod o broblemau byd-eang enbyd, sy'n cynnwys gweithredu polisïau newid yn yr hinsawdd sero net; yr adferiad o bandemig y Coronafeirws; a chefnogi anghenion ailhyfforddi yng nghyd-destun deallusrwydd artiffisial ac economïau a marchnadoedd llafur sy'n newid yn gyflym. Ystyrir bod dysgu gydol oes yn ffordd o wella cynhyrchiant; yn sicrhau gwell iechyd a llesiant; yn cynnwys pobl mewn prosesau democrataidd; yn adeiladu cymdeithas decach; ac yn sail i raglenni ‘codi’r gwastad'.

Rydym yn ystyried bod dysgu gydol oes yn cwmpasu dysgu ar gyfer pob oed, gan ganolbwyntio ar addysg a hyfforddiant i oedolion ôl-16; ac yn cwmpasu pob math o ddysgu oedolion, gan gynnwys dysgu galwedigaethol, addysg uwch, a dysgu cymunedol ac anffurfiol. Mae'n cynnwys prifysgolion, colegau, gwasanaethau addysg oedolion awdurdodau lleol, a sefydliadau addysg oedolion eraill.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirdymor i ddysgu gydol oes, gydag arloesedd o ran polisïau yn y maes hwn yn dyddio'n ôl i ddwy flynedd yn dilyn datganoli:

> **'Ein nod yw bod gan Gymru un o'r systemau addysg a dysgu gydol oes gorau yn y byd. Rydym am i Gymru fod yn wlad sy'n dysgu, lle bydd dysgu gydol oes o ansawdd uchel yn darparu'r sgiliau y mae ar bobl eu hangen i ffynnu yn yr economi newydd, yn rhyddhau talent, yn ehangu cyfleoedd ac yn atgyfnerthu cymunedau.’** (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001: 8).

Er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau cydbwysedd rhwng amcanion sy’n gysylltiedig â chynhyrchiant ac amcanion cymdeithasol dysgu gydol oes, gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gynnal adolygiad o’r dystiolaeth. Nod yr adolygiad hwn yw llywio trafodaethau ar bolisi a chefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a gyhoeddwyd ar 1 Tachwedd 2021 ac sy'n adnewyddu'r pwyslais ar ddysgu gydol oes yng Nghymru trwy sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER).

Roedd y gwaith yn cynnwys cyfuniad o ddulliau ymchwil: cynhaliwyd adolygiad o'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth bresennol; cynhaliwyd ymgynghoriadau ag arbenigwyr yn y sector; sefydlwyd panel arbenigol o randdeiliaid ac arweinwyr polisïau i drafod y cwestiynau ymchwil, ac i gasglu gwybodaeth am y sefyllfa bresennol yng Nghymru a'r modd y mae darparwyr yn gweithredu i bennu'r angen ac i ateb y galw am ddysgu gydol oes; cynhaliwyd bord gron o arbenigwyr a chyfranogwyr o Lywodraeth Cymru; a chynhaliwyd adolygiad o'r data cyfranogiad i ddarparu llinell sylfaen y cafodd Cymru a rhannau o'r DU eu meincnodi yn unol â nhw.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro ar sail meysydd allweddol dysgu gydol oes: y cyd-destun y mae'n cael ei gynnal ynddo; dysgu gydol oes mewn gweledigaethau a strategaethau; hawliau i ddysgu gydol oes; yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng targedu a'r ddarpariaeth gyffredinol; ffactorau sy'n rhwystro dysgu; cydbwyso'r amcanion economaidd a chymdeithasol; rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid gwahanol a strwythurau llywodraethu dysgu gydol oes; ffurfiau effeithiol ar gymorth i sefydliadau dysgu; a chymharu dysgu gydol oes yng Nghymru â rhannau eraill o'r DU. Mae'r adroddiad yn dod i ben gyda chyfres o argymhellion cyfunol i Lywodraeth Cymru.

# Y cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod addysg plant yn dda ei ansawdd a bod myfyrwyr yn cael eu hybu i fynd i addysg uwch. Fodd bynnag, mae gwaddol o ddiffyg yn sgiliau oedolion wedi cyfrannu at gynhyrchiant is, diweithdra a throsiant llafur. Gwaethygodd y diffyg sgiliau hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i effeithiau ffactorau economaidd a chymdeithasol ar y farchnad lafur. Mae’r ffactorau hyn yn cynnwys: pandemig y Coronafeirws; Brexit; polisïau datgarboneiddio; mwy o awtomeiddio yn y gweithle; bywydau gwaith hirach; a niferoedd cynyddol o bobl hunangyflogedig. Mae'r holl ffactorau hyn yn tynnu sylw at yr angen am ailhyfforddi gan fod y sgiliau cyfredol yn mynd yn hen ffasiwn a phrin yw'r dysgu a geir ar draws cenedlaethau. Mae dysgu gydol oes yn cynnig ffyrdd o liniaru diweithdra a thlodi cynyddol a chanlyniadau iechyd negyddol, ac o wella llesiant cyffredinol.

Yn yr 1920au y cafodd dysgu gydol oes ei ddiffinio fel cysyniad gyntaf, a hynny gan yr addysgwr o Sais, Basil Yeaxlee. Gellir olrhain ei wreiddiau yn ôl i'r Rhyfel Byd Cyntaf ac adroddiad 1919 gan Bwyllgor Addysg Oedolion y Weinyddiaeth Ailadeiladu, y cyfrannodd Yeaxlee ato, ac at y traddodiad addysg oedolion a oedd yn gysylltiedig â grwpiau megis Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn y DU (Stanistreet, 2018). Cafodd dysgu gydol oes, fel y'i gelwir heddiw, ei grisialu’n gysyniad yn yr 1970au, a hynny o ganlyniad i fentrau gan dri chorff rhyngwladol: Cyngor Ewrop; y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD); ac UNESCO (Stanistreet, 2018).

Cynigiodd Cyngor Ewrop 'addysg barhaol' yn rhan o broses o ail-lunio addysg tuag at system fwy hyblyg a hyd oes gyfan, lle byddai unigolion yn dysgu'n rheolaidd trwy gydol eu bywyd (Cyngor Ewrop, 1975). Galwodd yr OECD hefyd am addysg reolaidd, a fyddai’n golygu cyflawni gwaith llawn-amser bob yn ail ag astudio’n llawn-amser (Stanistreet, 2018). Ond adroddiad UNESCO yn 1972 'Dysgu i Fod' (a elwir hefyd yn Adroddiad Faure) a dynnodd y sylw mwyaf ac a gafodd y dylanwad mwyaf ar y ddealltwriaeth gyfredol (Stanistreet, 2018). Roedd yr adroddiad hwn yn argymell 'addysg gydol oes' yn rhan o broses o ffurfio cymeriad, a byddai'n cynnwys dulliau ffurfiol ac anffurfiol drwy gydol bywyd oedolyn (Stanistreet, 2018: 11). Roedd Charles Hummel, addysgwr ac awdur o'r Unol Daleithiau, wedi galw dyfeisiad UNESCO o'r cysyniad yn chwyldro Copernicaidd mewn addysg, a hynny am ei fod yn ystyried dysgu yn broses gydol oes, sy’n dechrau o ddiwrnod cyntaf bywyd ac yn parhau tan ddiwrnod olaf y bywyd hwnnw (Maehl, 2020).

Yng Nghymru, un o eiriolwyr allweddol dysgu gydol oes oedd yr academydd dylanwadol Raymond Williams. Pwysleisiodd 'Y Chwyldro Hir' fod dysgu nid yn unig yn ymwneud â meithrin gwybodaeth neu sgiliau technegol a galwedigaethol, ond ei

fod hefyd yn golygu ffurfio cymeriad, a diwallu anghenion 'aelod o ddemocratiaeth addysgedig a chyfranogol' i chwarae rhan mewn cymdeithas (Williams, 1961:148).

Mae dysgu gydol oes yn sicrhau bod unigolion yn deall o oedran ifanc fod dysgu yn weithgarwch am oes, a bod angen iddynt reoli eu cynlluniau dysgu eu hunain a pheidio â dibynnu'n llwyr ar y wladwriaeth. Mae'r wladwriaeth yno i feithrin dyheadau ac i sicrhau bod y seilwaith a'r dirwedd sy'n hwyluso cyfleoedd dysgu gydol oes ar gael ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir (Sefydliad Cyhoeddus a Dysgu a Gwaith Kantar, 2018).

Yn ogystal â'r adnoddau hyn, mae llawer wedi cael ei ysgrifennu yng Nghymru am ddysgu gydol oes, ac mae yna nifer o ddatganiadau a dogfennau polisi pwerus ar gael sy’n hyrwyddo mentrau newydd, ac a drafodir isod. Fodd bynnag, mae gweithredu'r rhain wedi bod yn heriol. Fel yng ngweddill y DU, mae Cymru wedi blaenoriaethu elfen sgiliau strategaeth dysgu gydol oes, sydd wedi cael effaith andwyol ar fuddion ehangach dysgu, ac a allai fod wedi cyfrannu at ostyngiad yng nghyfranogiad oedolion. Ers datganoli, cafwyd dulliau polisi gwahanol o ymdrin ag addysg gydol oes yng Nghymru, yn amrywio o bolisïau integredig ar draws sectorau gwahanol, i amgylchedd polisi mwy tameidiog. Fodd bynnag, mae datblygiadau diweddar yn amlygu bod yna droad yn ôl i sicrhau gwell cydgysylltu rhwng polisïau.

# Lefelau sgiliau a thueddiadau o ran cyfranogi mewn addysg oedolion

Mae'r ystadegau ar sgiliau sylfaenol ymhlith oedolion yng Nghymru yn wael o'u cymharu â chenhedloedd eraill yn y DU. Er bod cynlluniau ar y gweill i arafu'r diffyg sgiliau a sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar sgiliau cadarn erbyn cyrraedd oedolaeth, mae yna boblogaeth weddilliol wael ei sgiliau yn bodoli. A’r hyn sy’n achosi mwy o bryder fyth yw bod cyfranogiad oedolion mewn addysg yn gostwng. O ran llythrennedd oedolion, mae yna broblem hirsefydlog yng Nghymru gan fod tua 600,000 o oedolion o oedran gweithio heb fod wedi cymhwyso i lefel 2 (Nomis, 2021).[1] Mae oedolion heb gymwysterau ar lefel 2 ac uwch yn debygol o fod â sgiliau rhifedd a llythrennedd hen ffasiwn, ac o fod yn ddiffygiol mewn sgiliau digidol sydd bellach yn hollbwysig; mae hyn yn effeithio ar eu bywydau ac ar ddyheadau eu plant.

Nid yw bron hanner yr oedolion o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf wedi cael unrhyw hyfforddiant ers iddynt adael addysg lawn-amser. Dim ond 12% o oedolion

[1] Mae lefelau cymwysterau yn adlewyrchu graddau'r anhawster asesedig i ennill y cymhwyster ac, yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, maent yn mynd o 1 (e.e. TGAU ar raddau D, E, F neu G) i 8 (e.e. gradd ddoethurol).

heb unrhyw gymwysterau a oedd yn credu y byddent yn debygol iawn o gael cyfle dysgu/hyfforddiant cysylltiedig â swydd yn y ddwy i dair blynedd nesaf (The Centenary Commission on Adult Education, 2021).

Dyma’r heriau i Gymru:

- Nid oes gan 23.5% o oedolion gymhwyster lefel 2;
- Nid oes gan 13.6% o oedolion gymhwyster lefel 1, ac mae eu sgiliau hanfodol yn wael;
- Nid oes gan 53% o oedolion y sgiliau digidol hanfodol y mae arnynt eu hangen ar gyfer gwaith;
- Mae’n bosibl bod 20% o'r farchnad lafur gyfredol yn ddiffygiol yn y sgiliau ar gyfer eu swydd; ac mae
- 66% o'r gweithlu cyfan yn ddiffygiol mewn sgiliau i ryw raddau (Nomis/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021; Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2021; Canolfan Symudedd Cymdeithasol, 2021).

Yng Nghymru, mae'r gyfran sy’n meddu ar gymhwyster lefel 4 ac uwch 4% yn is na chyfartaledd y DU, ac yn achos y rhai sydd â chymhwyster lefel 3, mae’r gyfran 1% yn uwch (Nomis, 2021).

Mae'r rhai sydd ag anabledd yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na'r rhai nad oes ganddynt anabledd, ac mae lefelau eu cymwysterau hefyd yn fwy tebygol o fod yn is. Nid oes gan 15.2% o bobl anabl unrhyw gymwysterau, o gymharu â 4.9% o bobl nad ydynt yn anabl; ac maent hefyd yn llai tebygol o fod â chymwysterau sy'n uwch na lefel 2 (Ystadegau Cymru, 2020).

Mae cyfranogiad mewn dysgu oedolion a chaffael sgiliau yn gostwng (Social Market Foundation, 2020). Gostyngodd cyfranogiad gweithwyr Prydain mewn addysg oedolion o 29% yn 2004 i 15% yn 2020. Mae cymhariaeth o bobl ddi-waith yn 2012-13 yn dangos, o'r rhai a gymerodd ran mewn hyfforddiant, mai dim ond 16% a oedd yn dal yn ddi-waith yn 2017-18, tra ymhlith y rhai nad oeddent wedi cyfranogi mewn hyfforddiant, roedd 27% yn parhau i fod heb waith. Yn 2019, ymhlith unigolion â'r lefelau addysgol isaf, dim ond 6% a ymgymerodd â rhyw fath o hyfforddiant neu addysg. Mae Tabl 1 yn dangos y bu gostyngiad mawr yn nifer y dysgwyr sy'n oedolion mewn addysg bellach, er bod y niferoedd cyffredinol wedi parhau'n sefydlog.

**Tabl 1: Niferoedd mewn addysg uwch a dysgwyr sy'n oedolion mewn addysg bellach yng Nghymru yn 2013-14 a 2019-20**


| Lefel addysg | 2013-14 | 2019-20 |
|---|---|---|
| Addysg uwch | 129,130 | 124,055 |
| Dysgwyr sy'n oedolion mewn Addysg Bellach | 177,445 | 108,965 |

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru (2021); RCU (2021)

Mae data Cymru hefyd yn awgrymu bod rhywfaint o anghydraddoldeb o ran y ddarpariaeth, ac mae'n bosibl nad yw'r cynnig dysgu cymunedol cyfredol yn darparu gwasanaeth digonol mewn rhannau o Gymru. Mae Ffigur 1 yn dangos, yn ôl Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), fod y ddarpariaeth bresennol wedi'i chanoli yn ne Cymru, gyda nifer cyfyngedig iawn o bobl yn ymgymryd â dysgu gydol oes yn y gogledd.[2] Fodd bynnag, nid yw data LLWR yn cynnwys darpariaeth 'a gynorthwyir', sy'n ffurfio rhan sylweddol o'r cynnig yng ngogledd Cymru (RCU, 2021). Gwnaed newidiadau i fodel ariannu grantiau dysgu oedolion yn y gymuned yn 2019-20 a allai leihau gwahaniaethau daearyddol. Dylid adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn data yn y dyfodol a bydd angen ymchwil bellach i ddeall hyd a lled unrhyw wahaniaethau yn y cynnig ac effaith y newidiadau hyn.

[2] Mae'r atodiad technegol, RCU (2021), yn cynnwys mwy o ddata ar broffil a lleoliad dysgwyr sy'n oedolion yng Nghymru.

### Ffigur 1: Cyfanswm y dysgwyr yn nysgu cymunedol awdurdodau lleol yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol (2019-20)




Ffynhonnell: RCU (2021); data gan Ystadegau Cymru (2021)

Mae yna rai dangosyddion perfformiad cadarnhaol (Llywodraeth Cymru, 2021a):

- Yn 2020, cynyddodd lefelau cymwysterau yng Nghymru, yn dilyn tuedd barhaus.
- Rhwng 2019 a 2020 yn achos oedolion o oedran gweithio (18-64 oed) yng Nghymru:

    - Amcangyfrifir bod yna ostyngiad o 0.9% yn y nifer nad oes ganddynt gymwysterau.
    - Mae yna gynnydd o 1.8% yn y rhai sydd o leiaf â chymwysterau lefel 2.
    - Mae yna gynnydd o 2.9% mewn cymwysterau lefel 3.
    - Cynyddodd Lefel 4 neu uwch 2.6%.
- Y cynnydd yn lefel 4 neu uwch oedd y mwyaf o flwyddyn i flwyddyn ers i'r mesur ddechrau yn 2008, gan gyfrif hefyd am y rhan fwyaf o'r cymwysterau lefel 3 neu uwch.

# Gweledigaeth ar gyfer dysgu gydol oes yng Nghymru

Mae'r adran hon yn trafod y modd y mae dysgu gydol oes wedi'i gynnwys mewn gweledigaethau a strategaethau yng Nghymru, a'r modd y defnyddir hawliau wrth ddarparu addysg a sgiliau. Mae'n dod i ben gydag argymhellion ar gyfer diffiniad newydd o ddysgu gydol oes i Gymru, system lywodraethu sylfaenol, a beth a ddylai fod yn hawl a beth a ddylai fod yn hawl.

Y datganiad diweddaraf a mwyaf amlwg o bolisi dysgu gydol oes yw gweledigaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) Llywodraeth Cymru o fis Chwefror 2021, sy'n awgrymu y bydd dysgu gydol oes i oedolion wrth wraidd y rhaglen ddiwygio (Llywodraeth Cymru, 2020c). Mae'r egwyddorion ar gyfer newid sy'n cefnogi gweledigaeth strategol AHO yn nodi rhai o fuddion dysgu gydol oes ar gyfer y garfan ôl-18:

> **'... mae buddion dysgu gydol oes yn fwy na budd economaidd yn unig. Mae addysg a hyfforddiant yn datblygu unigolion gwydn, uchelgeisiol a bodlon a dinasyddion sy'n gallu cyfrannu'n weithgar at eu cymuned leol a'r gymdeithas ehangach.'** (Llywodraeth Cymru, 2020c: 7).

Rhoddwyd sylw i ddysgu gydol oes mewn meysydd a strategaethau polisi eraill. Er enghraifft, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yn ddarn allweddol o ddeddfwriaeth ar gyfer llunio polisïau yng Nghymru. Er nad yw'r Ddeddf yn cyfeirio'n benodol at ddysgu gydol oes fel strategaeth gyflawni ar gyfer y nodau, tynnodd adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2020 sylw at ddysgu gydol oes fel elfen allweddol i gyflawni'r nodau, gan awgrymu y dylid croesawu dysgu gydol oes ledled llywodraeth. Felly, bydd dysgu gydol oes yn rhan a fydd ymhlyg o ran llwyddiant y Ddeddf i gyflawni ei nodau, ac mae hyn yn amlwg mewn datganiadau pellach gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:

> **'Dylai'r Comisiwn *[ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil]* gael ei sefydlu mewn ffordd sy'n adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo'[r] Comisiwn i gynhyrchu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes sy'n ein helpu i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.**

> **Dylai gweledigaeth genedlaethol gynnwys datblygu Fframwaith Sgiliau newydd ar gyfer Cymru ...**
>
> **Mae angen i gyrff cyhoeddus gofleidio'r uchelgais ar gyfer dysgu gydol oes, a dylent gynnig pob cyfle i'w staff ddarparu cyfleoedd dysgu yn y gweithle'.** (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2020: 644-5).

Yn ogystal, yn unol â datganiad UNESCO bod addysg yn hawl ddynol i bawb trwy gydol eu hoes, mae'r datganiad polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru (2017) yn nodi diben a rôl addysg oedolion yng Nghymru, gan ddweud ei fod yn 'newid bywydau ac yn hybu twf economaidd' (Llywodraeth Cymru, 2017: 7). Rhaid i ansawdd gyd-fynd â mynediad:

> **'Cymru lle mae dysgu yn elfen ganolog o bopeth a wnawn; lle mae cyfranogiad mewn dysgu yn cael ei annog a'i wobrwyo; a lle mae pobl yn cael cyfle cyfartal i ennill y sgiliau a'r gwaith sydd eu hangen arnynt mewn bywyd i ffynnu'.** (Llywodraeth Cymru, 2017: 3).

Mae Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a gyhoeddwyd ar 1 Tachwedd 2021 yn amlinellu dyletswyddau strategol y CTER (Llywodraeth Cymru, 2021b). Mae dysgu gydol oes yn cael ei osod wrth galon gwaith y CTER, a bydd dehongliad eang o addysg drydyddol yn cael ei gymhwyso i gynnwys Dysgu Oedolion yn y Gymuned a dysgu sgiliau sylfaenol. Nid yw'r Bil yn manylu ar y modd y bydd yr ymrwymiadau yn natganiad polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru 2017 yn cael eu datblygu. Er y rhagwelir y bydd polisi a chynllun ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru yn cael eu cynnwys yng ngwaith y CTER yn y dyfodol, mae'n parhau i fod yn risg na fydd yn cael ei flaenoriaethu mewn modd priodol, a hynny am fod addysg uwch a dehongliad cyfyngol o ystyr addysg bellach yn aml yn cael eu hystyried yn bwysicach.

Mae gweledigaeth AHO yn gwneud ymrwymiad i ddysgu gydol oes, a bydd yn disodli'r cynlluniau a amlinellwyd yn natganiad polisi Dysgu Oedolion yng Nghymru 2017. Fodd bynnag, gan fod gweledigaeth Dysgu Oedolion yng Nghymru yn amlinellu agwedd sylfaenol ar ddysgu gydol oes, byddai'n fuddiol i'r cynlluniau hyn gael eu hintegreiddio yng nghynlluniau'r CTER.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r CTER adeiladu ar y gwaith arloesol sy'n cael ei wneud mewn ysgolion ac yn addysg y blynyddoedd cynnar. Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn dechrau cofleidio dealltwriaeth o ddysgu gydol oes sy'n cwmpasu pob grŵp oedran, gyda chwricwla ysgolion yn ofynnol i hyrwyddo 'dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes' (Llywodraeth Cymru 2020a).

Bwriedir i'r CTER barhau â'r gwaith hwn:

**'Bydd y Comisiwn newydd yn rhoi buddiannau dysgwyr wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud ac yn sicrhau cysondeb â'r dysgu a arweinir gan ddibenion yn y Cwricwlwm cyn-16 i Gymru'** (Llywodraeth Cymru, 2020c: 13)

Mae hyn yn unol â llythyr cylch gwaith 2020-21 y cyn Weinidog Addysg at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (Llywodraeth Cymru, 2020b:1).

Nid yw fframwaith a chanllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr addysg ôl-18, ar wahân i brifysgolion, i ystyried a gweithredu'r nodau llesiant. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod gwaith y Ddeddf Llesiant yn y dyfodol yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer dysgu gydol oes, a'i bod yn ei osod yn fecanwaith cyflawni ar gyfer y nodau llesiant.

# Yr angen am ddull gweithredu cydgysylltiedig

Mae dysgu gydol oes yn cefnogi unigolion, cyflogwyr, cymunedau a'r gymdeithas ehangach. Mae'n cwmpasu dimensiynau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol dysgu, yn ogystal â gwella sgiliau a rhagolygon ar gyfer swyddi (gweler Ffigur 2). Mae iddo hefyd fuddion ehangach, megis gwella iechyd a llesiant, cefnogi'r celfyddydau a pholisi diwylliannol, a darparu dealltwriaeth o bwysigrwydd newid yn yr hinsawdd. Mae ymyriadau megis 'rhagnodi cymdeithasol', lle mae gweithgareddau cymdeithasol neu greadigol yn cael eu rhagnodi er budd iechyd/llesiant unigolion, yn amlygu ffyrdd y gellir defnyddio dysgu i gyflawni nodau polisi ehangach. A gall cynnwys uwchsgilio/ailsgilio mewn polisi economaidd helpu i sicrhau bod gan Gymru'r gweithlu y mae arni ei angen ar gyfer y dyfodol.

O'r herwydd, nid maes y sector addysg yn unig yw dysgu gydol oes. Dylai gynnwys y llywodraeth ehangach, a chael ei ddarparu nid yn unig gan brifysgolion, colegau a gwasanaethau addysg oedolion awdurdodau lleol, ond gan rwydwaith o bartneriaethau lleol sy'n cynnwys y sector gwirfoddol, darparwyr preifat a llywodraeth leol.

### Ffigur 2: Buddion dysgu gydol oes

**Yr Unigolyn**

- Gwell sgiliau a chymwysterau
- Gwell canlyniadau iechyd
- Gwell cyfleoedd bywyd
- Diddordeb, boddhad a mwynhad

**Yr Economi**

- Gweithlu medrus
- Gwell cynhyrchiant
- Sectorau cynaliadwy
- Gwell ffyniant

**Y Gymuned**

- Gwell cydlyniant cymdeithasol
- Gwell integreiddio
- Mwy o symudedd cymdeithasol
- Llai o anghydraddoldeb

Y blynyddoedd cynnar → Cynradd → Uwchradd → Trydyddol → Prifysgol → Oedolion → Gydol Oes

Un o nodweddion mwyaf nodedig dysgu gydol oes yw ei fod yn mynd y tu hwnt i gyfrifoldeb adrannau addysg, a dylai gael ei roi ar waith yn systematig ledled y llywodraeth. Ceir enghreifftiau rhyngwladol amrywiol o’r modd y mae gwledydd yn defnyddio eu diffiniadau o ddysgu gydol oes i gefnogi cysondeb o ran polisïau ac i weithredu strategaethau ledled y llywodraeth mewn modd effeithiol i gyrraedd pob lefel o gymdeithas.

Er enghraifft, mae Sweden yn defnyddio datganiad allweddol i greu cyd-ddealltwriaeth ledled holl adrannau'r llywodraeth. Mae hwn yn fodel defnyddiol gan ei fod yn hwyluso gweithredu ac yn gallu bod yn sail ar gyfer datblygiadau dysgu gydol oes pellach, gan gynnwys mwy o adrannau'r llywodraeth yn cymryd rhan yn y rhaglen.

Mae fframwaith UNESCO, os caiff ei fabwysiadu, yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau ymuno a hwyluso agenda ryngwladol newydd ar gyfer dysgu gydol oes, y mae'n ei dosbarthu yn hawl gyffredinol. Anogir pob aelod o UNESCO i gyfrannu at y seithfed Gynhadledd Ryngwladol ar Addysg Oedolion (CONFINTEA VII) yn 2022; ac anogir llywodraethau i ystyried dull cydgysylltiedig ledled adrannau.

Yng Nghymru, mae sicrhau cysylltiadau ledled meysydd polisi, ynghyd â nodau trawsbynciol y Ddeddf Llesiant, yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu ac ymgorffori'r diffiniad ehangach o ddysgu gydol oes. Un opsiwn fyddai cyfeirio'n benodol at ddysgu gydol oes fel mecanwaith cyflawni ar gyfer nodau eraill, yn cynnwys y rhai o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan y gall addysg a dysgu oedolion helpu i gyflawni'r nodau llesiant cyfredol. Mae yna botensial y bydd y sefyllfa sydd ar waith ar hyn o bryd, sef eithrio dysgu gydol oes yn strategaeth gyflawni ar gyfer y nodau llesiant, yn gwanhau'r broses o weithredu'r Ddeddf Llesiant.

Yn ogystal â defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fframwaith, mae'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) rhagweledig yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu dulliau cyfannol mewn perthynas â dysgu seiliedig ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys annog cyflogwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus i gefnogi'r broses o feithrin gallu trwy ddarparu hyfforddiant a datblygu'r gweithlu, sef elfennau a fyddai'n cyflawni cyfrifoldebau yn y maes hwn, gan, ar yr un pryd, gefnogi dysgu gydol oes yn y gweithle.

Er mwyn sicrhau bod diffiniad ehangach, trawsbynciol yn cael ei weithredu, dylid datblygu strwythur llywodraethu newydd sy'n dwyn ynghyd holl adrannau, darparwyr a strwythurau lleol y llywodraeth. Dylai Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n bosibl, ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi, megis galluoedd cynllunio a phrosesau caffael, i hwyluso mwy o gyfranogiad a'r defnydd ar y cyd o gyfleusterau.

# Gweledigaeth newydd i Gymru

Yr her bresennol i Gymru yw'r angen dybryd i lawer o oedolion wella eu sgiliau sylfaenol; ac iddynt gael eu perswadio i uwchsgilio a chymryd rhan mewn prosesau ailsgilio. Mae datblygu dealltwriaeth glir a rennir o'r cysyniad o ddysgu gydol oes yn bwysig i sicrhau cysondeb o ran polisïau a gweithredu effeithiol. Fodd bynnag, bydd absenoldeb diffiniad cyhoeddedig penodol, sy'n amlygu ystyr a chwmpas dysgu gydol oes, yn ei gwneud yn anodd newid y diwylliant dysgu.


Mae'r enghreifftiau a osodir gan UNESCO a Sweden yn dangos y modd y gall cael diffiniad clir ac unffurf o ddysgu gydol oes helpu i sicrhau bod dysgu gydol oes yn rhan annatod o gymdeithas. Ar y cyd â hyn, mae yna ddisgwyliad y bydd yr holl bolisïau mewn perthynas ag addysg, cymunedau, y gweithlu, iechyd a diwylliant yn y

dyfodol yn cael eu profi i weld a ydynt yn cynorthwyo dysgu gydol oes. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n eglur i fynegi a mabwysiadu un diffiniad o ddysgu gydol oes, a phe bai yna ofyniad wedi bod i asesu unrhyw bolisi newydd yn unol â dysgu gydol oes, efallai y byddai dysgu gydol oes wedi cael ei gynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan helpu i gyflawni ei nodau.

Yn seiliedig ar y llenyddiaeth ryngwladol, prif elfennau gweledigaeth o ddysgu gydol oes yw (Stanistreet, 2018; UNESCO 2020; OECD, 2021; a gweler Ffigur 3):

1. Mae dysgu yn rhywbeth sydd ar gyfer pob cyfnod o fywyd.
2. Mae'n cwmpasu'r sgiliau, yr wybodaeth, y dealltwriaethau a'r doniau sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd boddhaus a llwyddiannus.
3. Mae dysgu'n digwydd ar sawl ffurf ac mewn sawl man, gan gynnwys mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol a ledled pob maes gwybodaeth, disgyblaeth a phwnc.
4. Systemau cefnogol integredig sy'n meithrin dysgwyr sydd wedi'u grymuso, a
5. Mae cyfleoedd dysgu, boed yn rhai anffurfiol neu ffurfiol, ar gael i ddysgwyr mewn modd hyblyg ac amrywiol.

### Ffigur 3: Elfennau allweddol diffiniad o ddysgu gydol oes



# Diffiniad arfaethedig o ddysgu gydol oes

Mae angen cynnwys dwy elfen graidd mewn diffiniad o ddysgu gydol oes:

i) bod unigolion, o'u plentyndod, yn deall bod dysgu yn weithgarwch gydol oes, eu bod yn rheoli eu cynlluniau dysgu eu hunain, ac nad ydynt yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y llywodraeth; ac mai

ii) rôl y llywodraeth yw codi dyheadau a hwyluso'r seilwaith a'r amgylchedd sy'n golygu bod cyfleoedd dysgu gydol oes ar gael ar yr adeg briodol ac yn y lle priodol i sicrhau'r elw mwyaf posibl i'r unigolyn, y gymuned a'r economi.

Ni ddylid defnyddio dysgu gydol oes i gyfeirio at Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn unig gan fod dysgu gydol oes yn llawer ehangach ac yn cynnwys addysg uwch ac addysg bellach. Mae astudio ar lefel uwch yn ddiweddarach mewn bywyd yn hanfodol i feithrin llesiant a ffyniant, a dylai unrhyw fesurau i hyrwyddo dysgu gydol oes roi ystyriaeth briodol i addysg uwch.

Mewn cyfres ddiweddar o areithiau Tŷ'r Arglwyddi ar ddysgu gydol oes, crynhoes y Farwnes Sheila Hollins ei dyheadau ar gyfer dysgu gydol oes (2021):

> **Dywedodd ei bod am weld sefydliadau addysgol yn dod yn lleoedd cynhwysol sy'n caniatáu i bob unigolyn ddod o hyd i foddhad personol – lleoedd sy'n llwyr ddeall y sail foesegol sy'n galluogi cyfle cyfartal, lle gall pobl ddysgu oddi wrth ei gilydd, ar draws disgyblaethau traddodiadol, gan feistroli'r ddawn o gyfuno'r celfyddydau, y gwyddorau a'r dyniaethau er mwyn eu cyfoethogi i gyd. Dywedodd y byddwn yn esgeuluso'r genhedlaeth nesaf os na fyddwn yn gwneud hyn.** (Hollins, 2021)

Mae hwn yn fan cychwyn defnyddiol. Awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu diffiniad sy'n egluro bod dysgu gydol oes yn ddysgu ar gyfer pob oed, a'i fod ar gael i bawb ym mhob cyfnod a phob cylch o'u bywyd. Byddai'r diffiniad hefyd yn cwmpasu'r gofyniad i allu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, mae 'cylch' yn cynnwys y cylch dirfodol personol; y cylch preifat a dinesig; cymdeithas sifil a'r cylch cyhoeddus; gwaith – cyflogai, aelod o undeb, neu gyflogwr; a bywyd mewn cymdeithas ddysgedig (Marples, 2010).

Dylai fod yna hefyd gydnabyddiaeth eglur o 'bwyntiau pontio' ym mywydau pobl, sy'n cynnwys ymddeoliad, profedigaeth, a mynediad i'r 'trydydd oedran' ar ôl 64 oed, lle gallai cymorth a/neu hawliau penodol i ddysgu fod ar gael. Er mwyn cefnogi dull pob

oed, gellid tynnu sylw at raglenni sy'n bodoli eisoes, megis prentisiaethau, fel cyfleoedd dysgu llwyddiannus ar gyfer pob oedran.

# Argymhellion

Yng ngoleuni'r uchod, awgrymwn fod Llywodraeth Cymru yn dwyn ynghyd fuddion economaidd ac ehangach dysgu i fabwysiadu diffiniad cynhwysfawr newydd o ddysgu gydol oes. Gallai'r diffiniad hwn estyn y polisïau a'r systemau blaengar sydd gan Gymru eisoes ar waith ar gyfer plant fel ei fod yn cynnwys plant 16-18 oed ac oedolion o bob oed, a gallai fod yn rhan o ddyletswydd gyfreithiol y CTER.

Yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn, awgrymwn y modd y gallai hyn fod yn fframwaith ar gyfer set fwy penodol o hawliau a grwpiau blaenoriaeth.

**Argymhelliad 1: Bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ac yn hyrwyddo diffiniad pob oed newydd o ddysgu gydol oes y mae iddo weledigaeth a set o egwyddorion a dibenion sylfaenol sy'n cyfleu'r buddion i unigolion, cyflogwyr, cymunedau a’r gymdeithas ehangach, ac sy'n cwmpasu dimensiynau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol dysgu.**

Rydym yn cynnig y pennawd canlynol i grynhoi’r diffiniad o ddysgu gydol oes ar gyfer ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd cyfathrebu, gan dynnu ar waith sy’n cynnwys Marples (2010) ac UNESCO (2020):

## Blwch 1: Gweledigaeth ar gyfer dysgu gydol oes

'Cymru, y wlad dysgu gydol oes; ar gael i bawb, a hynny ym mhob cyfnod ac ym mhob cylch o’u bywydau.'

**Y naratif sylfaenol:**

- **Mae dysgu gydol oes yn adeiladu ar yr economi, cymunedau a chymdeithas ehangach, ac yn eu cyfoethogi.**
- **Mae dysgu gydol oes yn allweddol i fynd i'r afael â'r heriau lluosog sy'n wynebu Cymru.**
- **Mae dysgu gydol oes yn meithrin gallu pobl a chyflogwyr i ddelio â newid ac i adeiladu'r dyfodol y maent am ei gael.**
- **Mae dysgu gydol oes yn arwain at foddhad i’r unigolyn a gwell cynhyrchiant, ac mae’n gwella gwead diwylliannol a dinesig Cymru.**
- **Mae dysgu gydol oes yn torri'r cylch o gyflawniad isel ac yn adnewyddu ac adeiladu cymunedau.**

**Argymhelliad 2: Bod Llywodraeth Cymru yn integreiddio dysgu gydol oes i mewn i feysydd polisi ehangach, megis polisïau iechyd a llesiant, diwylliannol a newid yn yr hinsawdd, er mwyn sicrhau bod preswylwyr Cymru yn elwa ar fuddion ehangach dysgu. Dylai ddefnyddio systemau eraill y llywodraeth, megis galluoedd cynllunio a phrosesau caffael, i hwyluso mwy o gyfranogiad a'r defnydd ar y cyd o gyfleusterau.**

**Argymhelliad 3: Bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y broses o ddatblygu ymateb ledled y DU i CONFINTEA VII dysgu gydol oes UNESCO yn 2022, ac yn arwain yn hynny o beth.**

# Hawliau

Mae'r adran hon yn trafod yr hawliau i addysg gydol oes sydd ymhlyg yn y datganiadau polisi cyfredol. Mae'n edrych ar ymrwymiadau presennol Llywodraeth Cymru, oedran y cyfranogwyr, a'r hawliau sylfaenol i ddysgu sgiliau. Dadleuir bod set estynedig o hawliau yn ofynnol.

Y diffiniad a dderbynnir o 'hawl' yw bod hawl i wasanaeth neu weithgaredd pwysig yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth, ac mae'n gysylltiedig fel arfer â hawl ddynol megis addysg ac, yn y DU, y gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, nid yw'n sicrhau mynediad i wasanaeth pan ofynnir amdano, na chwaith ei fod yn rhad ac am ddim yn y pwynt darparu, a hynny am fod mynediad a phris yn cael eu cyfryngu gan y llywodraeth ar sail ar yr hyn y gall ei fforddio. Gall yr unigolyn neu'r cyflogwr dalu costau'r ddarpariaeth (neu gall y ddau fod yn cyfrannu), a rennir rhwng y llywodraeth a'r defnyddiwr, gyda chymorth gwladol ychwanegol i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf.

Yn yr un modd, gall hawl ganiatáu mynediad i set benodol o weithgareddau, ond gall hyn gael ei gyfyngu gan flaenoriaethau neu bolisïau'r llywodraeth, ac efallai na chânt eu hariannu. Er enghraifft, yn Lloegr mae yna hawl newydd i hyfforddiant digidol, ond mae'n cael ei diffinio a'i chyfyngu gan fanyleb ar gyfer cwrs achrededig.

## Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru

Os diffinnir dysgu gydol oes yn **ddysgu a chaffael sgiliau dros oes**, yna mae gan Gymru nifer o hawliau ffurfiol ar waith eisoes. Mae'r hawliau presennol yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

- Addysg y blynyddoedd cynnar;
- Addysg gynradd ac uwchradd tan 16 oed; a
- Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.

Ar ben hynny, mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant i ddysgwyr 16-19 oed.

Mae Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn datblygu hyn ymhellach ac yn nodi bod yn rhaid i'r CTER fynd ati, yn achos dysgwyr 16-19 oed a'r rheiny sydd dros 19 oed, i sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol, sy'n addas i ofynion unigolyn cymwys, lle bo cyfleusterau priodol yn ddigonol o ran eu nifer a'u hansawdd i fodloni'r galw gan

ddysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2021b: 46, Adran 91). Gall y gofynion yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 weithredu'n effeithiol fel hawl, gan roi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru o ran darpariaeth, er efallai nad yw dysgwyr yn ymwybodol o fodolaeth yr hawl hon.

Yng ngweledigaeth AHO, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i'r canlyniadau dilynol; fodd bynnag, heb dargedau, bydd yn anodd pennu i ba raddau y byddant wedi cael eu cyflawni:

- Sefydlu hawl i ddysgu gydol oes;
- Ehangu mynediad at sgiliau a gwybodaeth trwy gydol bywydau a gyrfaoedd;
- Cynyddu cyfran y dysgwyr AHO sy'n dychwelyd i addysg yn ddiweddarach mewn bywyd;
- Yn achos unigolion sy'n ymgysylltu â dysgu ar adegau gwahanol yn eu bywyd, cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu iddynt sy'n cyd-fynd â'u hymrwymiadau teuluol a gwaith; a
- Datblygiadau arloesol parhaus mewn polisi ariannu i ddileu rhwystrau i addysg ôl-orfodol (Llywodraeth Cymru, 2020c).

Gan nad oes yna ddiffiniad o ddysgu gydol oes yn y datganiad polisi, nid yw'n glir pa hawliau sydd wedi cael eu cynnwys yn y weledigaeth AHO. Fodd bynnag, ymddengys bod yr 'hawliau' a gynhwysir yn yr egwyddorion hyn fel a ganlyn:

- Bod unigolion yn cael mynediad at well gwasanaeth gyrfaoedd;
- Bod yna fwy o ddyhead i gyfranogi ymhlith dysgwyr hŷn;
- Bod unigolion yn gallu manteisio ar ystod ehangach o raglenni; a
- Bod rhwystrau ariannu yn cael eu dileu.

# Oedran cyfranogi

Mae cyfranogiad gorfodol mewn addysg yng Nghymru yn dod i ben yn 16 oed, ond er bod hawl effeithiol ar gael i bobl ifanc 16-19 oed, mae cyfranogiad y tu hwnt i'r pwynt hwn yn wirfoddol. Mae hyn yn wahanol i Loegr, lle mae yna ofyniad cyfreithiol i bob plentyn 16-18 oed aros yn yr ysgol, y coleg, neu weithio gyda hyfforddiant.

Trafodwyd y potensial ar gyfer codi'r oedran cyfranogi yng Nghymru mewn adroddiad gan Maguire (2021), sy'n awgrymu bod codi oedran gorfodol cyfranogi yn llai tebygol o gynyddu cyfranogiad a chyrhaeddiad nag ymyraethau eraill – megis hyfforddiant ar sail cyflogaeth, mynd i'r afael â’r broblem o fyfyrwyr yn gadael yr ysgol yn gynnar, cysoni’r cwricwlwm, ac atal pobl ifanc rhag bod yn rhai Nad ydynt mewn Addysg,

Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET). Mae'r adroddiad yn dadlau bod ymdrechion gorfodi i gynyddu cyfranogiad yn debygol o fod yn llwyddiannus dim ond os bydd y llywodraeth yn ymrwymo iddynt. Fodd bynnag, mae yna berygl y gallai ymyraethau eraill hefyd fod yn dameidiog, neu beidio â chyflawni eu nodau, a gallai codi'r oedran cyfranogi roi disgwyliad o addysg bellach ar waith yn y tymor hwy. Gallai cael mecanwaith ar waith sy'n creu'r disgwyliadau hyn arwain at fwy o gyfranogiad, fel yr awgrymwyd gan ddata o Loegr (Thompson, 2018). Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw hyn yn ganlyniad i godi'r oedran cyfranogi gan yr awgrymir bod cynnydd mewn presenoldeb yn yr ysgol ac mewn addysg bellach yn ganlyniad i lefelau is o brentisiaethau a hyfforddiant seiliedig ar waith (Maguire, 2021).

Mae'r diwygiadau a amlinellir yn y weledigaeth AHO yn cynnig cyfle i raglenni gael eu rhoi ar waith dros y tymor hwy i annog cyfranogiad, pa un a yw codi'r oedran cyfranogi yn cael ei ddeddfu ai peidio (Maguire, 2021). Yn ogystal, gallai cyfuno cymorth ar gyfer mwy o gyfranogiad gyda'r Warant i Bobl Ifanc a gynigir gan Lywodraeth Cymru helpu i sicrhau'r nifer mwyaf o bobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant, gan weithredu fel hawl eglur wedi diwedd addysg orfodol.

Cyhoeddwyd y warant hon gan Weinidog yr Economi:

> **'Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau na fydd cenhedlaeth goll yng Nghymru o ganlyniad i'r pandemig. Dyna pam mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ddarparu ein Gwarant i Bobl Ifanc – rhaglen uchelgeisiol a fydd yn ceisio rhoi cyfle i bawb dan 25 oed yng Nghymru gael gwaith, addysg, hyfforddiant, neu hunangyflogaeth.'** (Llywodraeth Cymru, 2021c).

Fodd bynnag, nid yw 'cynnig' yr un fath â hawl. Gallai dull mwy cynhwysfawr sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n rhoi'r hawl i bobl gael addysg neu hyfforddiant hyd at 18 oed fod yn fwy buddiol, ac arwain at fwy o bobl ifanc yn aros ymlaen mewn addysg neu mewn swydd gyda hyfforddiant. Mae'r ddyletswydd i sicrhau cyfleusterau a hawliau cwricwlwm addas i ddiwallu anghenion dysgwyr 16-19 oed, a gynigir yn y Bil, yn gam angenrheidiol i'r cyfeiriad hwn (Llywodraeth Cymru, 2021b: 46, Adran 91. Fodd bynnag, nid yw sicrhau cyfleusterau yn ddigon i sefydlu hawl, yn enwedig gan nad yw'n gosod disgwyliad ar berson ifanc i gyfranogi mewn addysg, nac i gael swydd gyda hyfforddiant. Ar ben hyn, efallai na fydd yn annog eraill, megis staff gyrfaoedd, i godi dyheadau.

# Sgiliau sylfaenol

Yn Lloegr, ceir hawl i addysg am ddim i oedolion mewn Saesneg, Mathemateg ac addysg ddigidol, a hynny hyd at, ac yn cynnwys, lefel 2 a'r arholiad TGAU, gyda rhai awdurdodau cyfun maerol yn cynnwys iaith arwyddion a darllen gwefusau.

Nid oes sefyllfa ffurfiol ar gael yng Nghymru. Yn achos rhai cyrsiau lefel is, mae darpariaeth am ffi ostyngol ar gael trwy wahanol lwybrau ariannu, ond codir y ffi oedolion lawn ar oedolion sy'n sefyll arholiadau TGAU. Fodd bynnag, mae rhywfaint o gymorth prawf modd ar gael.

Nid oes yna hawl i addysg uwch yng Nghymru nac yn Lloegr. Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr wedi parhau i godi wrth i strwythurau ariannu (gan gynnwys benthyciadau dysgu) gefnogi twf darparwyr a chynnig estynedig. Nod Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 Lloegr, sy'n mynd trwy'r Senedd ar hyn o bryd, yw rhoi gwarant gydol oes i fenthyciad pedair blynedd ar gyfer addysg lefel 4 ac uwch, ac mae yna fenter newydd ar gael sy’n cynnig rhaglenni lefel 3 gwerth economaidd uchel rhad ac am ddim i'r rhai nad oes ganddynt lefel 3 eisoes (Senedd y DU, 2021).

# Argymhellion

Er bod hawl gyfreithiol i addysg yn rhoi sefydlogrwydd i sefydliadau, gan ei fod yn annog unigolion i gyfranogi mewn addysg, nid yw'n ddigonol. Mae angen i'r hawl gael ei hategu gan seilwaith ac adnoddau priodol sy'n cefnogi gweithredu llwyddiannus. Rhaid i eglurder o ran pwrpas, a gwaith cynllunio, cyhoeddusrwydd a hyrwyddo da fod yn gysylltiedig â hi. Hefyd yn angenrheidiol y mae cyllid caffaeladwy, sylfaen o ddarparwyr gwasanaethau o ansawdd y gellir ymddiried ynddi, rheolaeth ar y perfformio a’r cyflawni, ymgysylltiad â rhanddeiliaid, a negeseuon cyson gan y llywodraeth. A rhaid cael ymrwymiad hirdymor i'r polisi hawliau.

Cyflwynodd llywodraeth Lafur 1997-2005 nifer o hawliau a wnaeth wahaniaeth i gyfranogiad. Roedd Michael Barber, a arferai fod yn Gyfarwyddwr Uned Gyflawni Tony Blair, wedi amlinellu pa mor bwysig ydoedd fod y llywodraeth yn meddu ar eglurder o ran ei bwriad, ei thargedau a’i rheolaeth ar raglenni i sicrhau bod canlyniadau polisi yn cael eu bodloni (Barber, 2021). Mae ar Lywodraeth Cymru angen y math hwn o weithredu cadarn i roi polisïau ar waith mewn modd effeithiol.

Gan adeiladu ar Cwricwlwm i Gymru yr ysgolion, a chan weithio ar y rhagdybiaeth bod y diffiniad o ddysgu gydol oes yn cynnwys pob oedran, dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

- Cadarnhau ac ailddatgan y cynnig presennol;

- Ehangu'r cynnig i gynnwys pobl ifanc 16-18 oed ac oedolion â lefel sgiliau isel;
- Cydnabod dysgu anffurfiol a defnyddio dysgu i hyrwyddo dull ataliol o ymdrin ag iechyd; a
- Cynnig set o hawliau yn sail i'r cynnig.

Ar sail yr adolygiad hwn o'r hawliau cyfredol, a gwerthuso'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn datblygu hawliau estynedig. Byddai'r set newydd o hawliau yn cwmpasu pob oedran ac yn darparu llwybrau cynnydd priodol, a byddai'n rhoi Cymru mewn sefyllfa dda i fodloni'r heriau yn y dyfodol o ran sgiliau a bywyd.

**Argymhelliad 4: Gan adeiladu ar Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bod Llywodraeth Cymru yn rhoi set newydd ac estynedig o hawliau yn sail i'r weledigaeth ar gyfer dysgu gydol oes, a'r rheiny'n cael eu gwneud yn ddiriaethol ac yn hygyrch trwy ddarpariaeth berthnasol sydd ar gael yn rhwydd ar wahanol lefelau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac sy'n cael ei chefnogi gan bolisïau fforddiadwyedd priodol.**

---

## Blwch 2: Hawliau arfaethedig

**Byddai'r hawliau newydd ac estynedig yn cwmpasu'r canlynol:**

- **Hawl i addysg yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y feithrinfa, yr ysgol neu'r coleg, neu hawl i weithio gyda hyfforddiant tan 18 oed (25 ar gyfer Plant ag anghenion addysgol ychwanegol).**
- **Hawl i addysg uwch (llawn-amser, rhan-amser a modiwlaidd) ar unrhyw oedran, a hwnnw'n cael ei ariannu trwy fenthyciadau a grantiau a chyfraniadau unigol.**
- **Hawl i addysg, hyfforddiant a dysgu cymunedol ôl-18 a ariennir trwy fenthyciadau, grantiau neu gyfraniadau personol, gyda hawl i'r canlynol yn rhad ac am ddim:**
    - **llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), rhifedd, darllen gwefusau/iaith arwyddon, a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), hyd at ac yn cynnwys TGAU lefel 2.**
    - **cyrsiau galwedigaethol lefel 2 i'r rhai nad oes ganddynt gymhwyster ar y lefel hon.**
    - **cwrs galwedigaethol lefel 3 i'r rhai nad oes ganddynt gymhwyster ar y lefel hon.**
- **Hawl i gyfranogi mewn prentisiaeth gyflogedig.**

- **Hawl i ofyn am amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer hyfforddiant, gyda disgwyliad y bydd cyflogwyr yn cytuno.**
- **Hawl i gyngor gyrfaol (galwedigaethol ac addysgol) ar adegau o newid mewn bywyd (cynnydd yn 16 oed, cyflogaeth, diswyddo, newid gyrfa canol oes).**
- **Hawl i ymateb cydgysylltiedig gan y llywodraeth i faterion gydol oes, lle bo Addysg, Gwaith a Phensiynau, Iechyd ac adrannau eraill yn cydweithio i ddarparu atebion cyfannol ar gyfer unigolion, gan gynnwys pobl hŷn, teuluoedd, a gweithwyr a chyflogwyr.**

---

# Taro cydbwysedd rhwng darpariaeth gyffredinol a thargedu grwpiau penodol

Mae yna sawl grŵp a fyddai'n elwa ar addysg bellach ac addysg uwch, yn enwedig yn y cyd-destun presennol o newidiadau cyflym yn y gweithle, a fydd yn golygu y bydd llawer mewn perygl o golli eu gwaith. Dylid gwrthsefyll y duedd i flaenoriaethu un grŵp dros un arall gan fod cynnig sylfaenol eang a chynhwysfawr yn ofynnol mewn seilwaith cyflenwi ystwyth. Mewn nifer o wledydd, mae'r cynnig sylfaenol hwn wedi'i osod yn y gyfraith ar ffurf 'hawl'.

Mae angen cynnig cynhwysfawr i gefnogi'r sylfaen bresennol o gyflogwyr ac i alluogi dinasyddion o bob oed a chefndir i gyfranogi mewn dysgu i ddibenion cysylltiedig â gwaith. Dylai cynnig cynhwysfawr hefyd ddarparu cyfleoedd i'r rhai a fyddai'n elwa ar ddysgu nad yw, o reidrwydd, yn gysylltiedig â gwaith. Gallai hyn gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl sy'n chwilio am ddatblygiad neu foddhad personol, neu gall gynnwys dysgu teuluol i ddarparu cymorth ar gyfer pontio’r cenedlaethau, a hwn, yn ei dro, yn cynyddu lefelau cyrhaeddiad plant.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell dull pob oed o ymdrin â dysgu gydol oes, ac mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o anghenion pob grŵp oedran mewn perthynas â gwasanaethau a darpariaethau. Dylid rhoi sylw penodol i ddysgwyr sy'n oedolion (dros 18 oed) lle nad oes yna ddarpariaeth statudol ar gael ar hyn o bryd.

Un ystyriaeth allweddol wrth dargedu grwpiau o ddysgwyr sy’n oedolion, o'i gymharu â dysgwyr dan 16 ac 16-18 oed, fydd cwmpas cyfyngedig cyllid y wladwriaeth. Bydd angen i raglenni ariannu ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion gynnwys cymysgedd o lwybrau ariannu gwahanol, ynghyd â chydbwysedd rhwng y wladwriaeth, yr unigolion a’r cyflogwyr o ran ariannu. Ystyriwyd y cwestiynau hyn mewn nifer o adolygiadau a chomisiynau diweddar. Mae'r rhain yn cynnwys Papur Gwyn AB Llywodraeth y DU (Llywodraeth y DU, 2021) ac Adroddiad Augur (Yr Adran Addysg, 2019), yn ogystal ag adolygiadau annibynnol gan Gomisiwn y Canmlwyddiant ar Ddysgu Oedolion (2019) a Pholisi Connect (Kelleher, 2020). Cafwyd adolygiadau gwleidyddol pleidiol hefyd gan Lafur (2019) a'r Democratiaid Rhyddfrydol (2019). Oherwydd y cyfyngiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru am ystyried pa grwpiau y gellid eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid a chymorth y wladwriaeth.

Mae dull targededig yn golygu y gall y llywodraeth ganolbwyntio gwasanaethau ar – neu, mewn rhai achosion, gyfyngu ar wasanaethau i – y rhai a fyddai'n elwa fwyaf.

Mae targedu grŵp yn golygu nodi'r meini prawf sy'n pennu y byddai grŵp penodol nid yn unig yn elwa ar y gwasanaeth ond y byddai arno hefyd *angen* y gwasanaeth. Ynghyd â chydariannu, cyllid unigol a chyllid y cyflogwr, gallai'r dull hwn sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn cael cymorth y wladwriaeth, tra bo’r cynnig cynhwysfawr i bawb yn cael ei gynnal.

Mae'r adran hon yn adolygu’r modd y gall llywodraethau ddal y ddysgl yn wastad rhwng cynnig cyffredinol neu hawl drwy dargedu'r grwpiau a fyddai'n elwa fwyaf. Mae'n trafod dulliau gwahanol o dargedu a pha grwpiau a fyddai'n elwa fwyaf ar addysg gydol oes, ac yn archwilio opsiynau ariannu gwahanol.

# Targedu'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf ar ddysgu gydol oes

Mae yna sawl dull allweddol o bennu grwpiau targed, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu rhoi ar waith yn y DU yn ystod y 30 mlynedd diwethaf (Keep *et al.*, 2020). Mae i bob dull ei fanteision a’i anfanteision, ac nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd.

Dyma’r prif ddulliau:

- Y llywodraeth sy'n pennu'r grwpiau targed;
- Mae’r llywodraeth yn pennu sefydliadau hyd braich i gyflawni’r dasg, er enghraifft y CTER neu arsyllfa sgiliau;
- Byrddau lleol (naill ai byrddau sgiliau neu awdurdodau lleol) sy'n pennu'r grwpiau targed;
- Colegau a darparwyr awdurdodau lleol sy'n pennu'r grwpiau targed;
- Trwy broses o hunanddethol, mae unigolion yn dewis, ac mae'r llywodraeth yn hwyluso eu dewis trwy system fenthyciadau neu gyfrifon, a ddefnyddir i dargedu cyrsiau a/neu weithgareddau galwedigaethol penodol.

Gellid diffinio grwpiau a fyddai'n elwa ar ddysgu gydol oes i raddau llawer mwy fel y rhai y mae arnynt angen y canlynol:

- Sgiliau hanfodol;
- Uwchsgilio
- Ailhyfforddi oherwydd bod eu swyddi mewn perygl o gael eu dileu;
- Sgiliau newydd i'w galluogi i weithio'n hirach; ac

- Addysg i gefnogi eu llesiant, i atal/gwella iechyd meddwl gwael, ac i wella hyder.

Er y gellid targedu'r grwpiau hyn trwy unrhyw un o'r dulliau a ddisgrifir uchod, y systemau sydd â'r gafael sicraf ac sy'n ymddangos fwyaf effeithiol o ran cynyddu cyfranogiad yw'r rhai sy'n gweithio gyda'r unigolyn ac yn darparu seilwaith sy'n caniatáu iddo ddysgu ar gyflymder ac amseriad o'i ddewis. O fewn y dull hwn, mae hefyd yn ofynnol cael llwybrau cynnydd clir ac atebion a ddarperir o ffynonellau lleol sy'n meithrin dyhead.

Byddai datganoli blaenoriaethau i ardaloedd a/neu ddarparwyr dibynadwy (prifysgolion, colegau, sefydliadau neu wasanaethau dysgu oedolion), a chaniatáu iddynt bennu blaenoriaethau lleol o fewn fframwaith cyffredinol gan Lywodraeth Cymru, yn golygu y gellid cyflawni hyn, ac yn sicrhau ar yr un pryd fod cynnig cynhwysfawr sylfaenol ar waith ledled Cymru.

Gellir targedu trwy ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a gwasanaethau cyhoeddus, sy'n sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r cynnig sydd ar gael mewn sefydliadau cyhoeddus (er enghraifft gallai'r Ganolfan Byd Gwaith roi gwybod i gleientiaid am gyrsiau Saesneg a Mathemateg rhad ac am ddim mewn coleg penodol). Mae mathau eraill o dargedu yn cynnwys cymell naill ai'r myfyriwr neu'r cyflogwr, neu ddefnyddio sancsiynau, sy'n golygu cynnwys neu ddileu cyllid.

# Opsiynau ariannu

O ystyried y cyfyngiadau parhaus ar gyllideb yn Llywodraeth Cymru, mae angen mynd ati i archwilio mecanweithiau y gallai'r rhai a all fforddio talu'n llawn neu'n rhannol gofrestru trwyddynt, ynghyd ag archwilio'r modd y gallai traws-gymorthdaliadau gefnogi grwpiau ac unigolion eraill i gyfranogi.

Mae adolygiadau diweddar (e.e. yr Adran Addysg, 2019; Kelleher, 2020) wedi segmentu'r mathau o ddysgwyr ac wedi cynnig atebion ariannu amrywiol, tra bo yna gonsensws cyffredinol y dylai cyllid fod yn gyfrifoldeb ar y cyd i'r wladwriaeth, y cyflogwr a'r unigolyn. Byddai cyflawni cydbwysedd rhwng y tri yn dibynnu ar y pwnc astudio a'r cydbwysedd rhwng y costau a'r buddion. Er enghraifft, os yw'r budd yn cronni i'r cyflogwr ac mewn maes a ariennir fel arfer gan y cyflogwr, yna ni ddylid cynnig cymorth y wladwriaeth. Fodd bynnag, os yw cyflogai mewn perygl o golli ei waith ac y mae'n ofynnol iddo ailhyfforddi, yna gallai cyllid ac ymyrraeth y wladwriaeth helpu i atal dibyniaeth hirdymor ar les, gan leihau'r gost gyffredinol bosibl i'r llywodraeth. Bydd yn ofynnol i hyn gadw mewn cof y trefniadau datganoli,

gan gynnwys y cydbwysedd rhwng gwariant Llywodraeth Cymru a'r hyn sy'n cael ei gadw i lywodraeth y DU (gan gynnwys lles).

Gallai cydariannu neu fecanweithiau cyfrannol, megis y dreth prentisiaethau, hefyd gael eu defnyddio i annog cyflogwyr i ddarparu cymorth i hyfforddi gweithwyr, yn arbennig gweithwyr newydd.

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am gyfrifon dysgu personol, sy'n darparu cyllid i unigolion cymwys ymgymryd â rhagor o gyrsiau addysg. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu, o fewn amlen ariannu wedi'i chapio, fod lledaenu arian cyhoeddus trwy'r cyfrifon hyn yn fwy effeithiol na chynigion cefnogol a gynllunnir yn lleol ac a drefnir gan sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt. Mae gwybodaeth farchnata dda am hawliau a budd-daliadau yn gweithio yr un mor dda. Mae i gyfrifon dysgu unigol nodweddion deniadol, ond maent yn annhebygol o gynnig atebion sy'n mynd i'r afael â phob her sy'n codi yn y gweithle, a hynny oherwydd ffactorau megis awtomeiddio a newid yn y sgiliau sy'n ofynnol yn y gweithle (OECD, 2019).

O ystyried y ffactorau hyn, ac asesu'r buddion oes a'r arbedion i'r wladwriaeth o wella sgiliau oedolion, gellid rhannu'r cyfrifoldeb ariannu fel yr awgrymir yn Nhabl 2.

### Tabl 2: Crynodeb o'r cyfrifoldebau ariannu posibl

| Grwpiau sy'n gymwys i gael cyllid Llywodraeth Cymru (a CTER yn y dyfodol) | Grwpiau sy'n gymwys ar gyfer cydariannu trwy fenthyciadau, grantiau, a chyfraniadau unigolion neu gyflogwyr |
|---|---|
| Pob unigolyn 16 i 18 oed | |
| Unigolion rhwng 19 a 24 oed Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) | Prentisiaethau |
| Unigolion â sgiliau hanfodol gwael mewn Cymraeg, Saesneg, ESOL, darllen gwefusau ac iaith arwyddion, Mathemateg a sgiliau digidol | Addysg uwch lefel 4 ac uwch |
| Unigolion heb lefel galwedigaethol 2 na 3 | Rhaglenni newid gyrfa |
| Unigolion sy'n ddi-waith ac nad ydynt yn cael cyflog | Cyrsiau rheoli |
| Unigolion sydd mewn perygl o golli eu gwaith | Graddau Meistr a Doethuriaeth |

| | |
|---|---|
| Unigolion sydd ag anabledd dysgu a/neu gorfforol, a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hynysu | Amcanion cyfoethogi a rhagnodi cymdeithasol nad ydynt o fewn cwmpas cyllid y llywodraeth |
| Lle ceir buddion sy'n pontio'r cenedlaethau yn deillio o ddysgu teuluol | |

## Argymhelliad

**Argymhelliad 5: Yn rhan o gynnig dysgu gydol oes eang, dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i breswylwyr a gweithwyr:**

- **Rhwng 16 ac 18 oed ac 19 a 24 oed;**
- **Sydd â sgiliau hanfodol gwael;**
- **Nad oes ganddynt lefel galwedigaethol 2 na 3.**
- **Sydd mewn perygl o golli eu gwaith.**

**A rhoi strategaeth gydariannu ar waith ar gyfer cyfoethogi a rhagnodi cymdeithasol, ac ar gyfer lefel 4 ac uwch (llawn-amser, rhan-amser, modiwlaidd, ac yn rhan o weithgarwch cenhadaeth ddinesig SAU).**

# Rhwystrau i ddysgu a chyfranogi

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am rwystrau i gyfranogi sy'n berthnasol i Gymru. Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (a chyn hynny, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion) wedi cynnal arolygon blynyddol ar y mater hwn oddi ar 2002. Gofynnwyd i ymatebwyr ddewis o restr o opsiynau wedi'u grwpio fel a ganlyn:

- Pwysau gwaith neu amser;
- Gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill;
- Cost;
- 'Rwy'n teimlo fy mod yn rhy hen';
- Rhwystrau eraill megis 'yn rhy bell i deithio', 'dydw i ddim yn teimlo'n ddigon hyderus', 'dydw i ddim yn gwybod beth sydd ar gael'; a
- 'Dim angen dysgu', neu ddim rhwystrau.

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn crynhoi'r canfyddiadau fel a ganlyn:

> **Mae tua 10 i 15 y cant o oedolion yn dweud bod gwaith neu bwysau amser arall yn eu hatal rhag dysgu, ac mae cyfran debyg yn dweud eu bod yn teimlo'n rhy hen. Mae llai nag un o bob 10 oedolyn yn cyfeirio'n gyson at ofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill, ac mae cyfran debyg yn dweud bod cost yn eu hatal rhag ymgysylltu. Bob blwyddyn, mae 18 i 27 y cant o oedolion yn dweud bod rhwystrau eraill yn eu hatal rhag dysgu. Yn achos y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae tua dwy ran o bump yn dweud nad oes yna unrhyw rwystrau neu eu bod o'r farn nad oes angen iddynt ddysgu.** (Y Sefydliad Dysgu a Gwaith, 2019: 1).

Mae’r tri phrif fath o rwystrau i ddysgu gydol oes a wynebir gan oedolion yn oddrychol, sefyllfaol a sefydliadol (Cross, 1981; Hyde a Phillipson, 2014):

1. Mae rhwystrau goddrychol yn adlewyrchu canfyddiadau negyddol sydd gan ddysgwyr am eu gallu, eu diddordeb a'u cymhelliant i ddatblygu sgiliau newydd neu feithrin gwybodaeth newydd; gallai hyn hefyd gynnwys rhwystrau diwylliannol a rhwystrau o ran iaith, a gallai canfyddiadau negyddol o du darparwyr adlewyrchu hyn.
2. Mae rhwystrau sefyllfaol yn cynnwys pethau sydd y tu hwnt i reolaeth dysgwyr unigol, megis pryderon iechyd, cyfrifoldebau teuluol neu gyfrifoldebau gofalu, a phwysau amser/ariannol.

3 Rhwystrau sefydliadol yw'r rhai hynny sy'n deillio o arferion anhyblyg, cymhleth neu anhygyrch yn achos darparwyr a sefydliadau, sydd weithiau'n adlewyrchu anghenion myfyrwyr iau, llawn-amser yn hytrach na dysgwyr hŷn.

Mae rhwystrau pellach yn cynnwys y canlynol:

4 Dim digon o sgiliau hanfodol: gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a llythrennedd digidol; a chymwysterau a allai fod yn ofynnol i gael mynediad at gyrsiau penodol.

5 Hyfforddiant mewn cyflogaeth: lle mae cyflogwyr yn poeni y bydd uwchsgilio eu gweithwyr i'r pwynt lle y mae ganddynt gymhwyster adnabyddadwy yn eu gwneud yn fwy deniadol i gyflogwyr eraill, ac y byddant yn eu colli i gystadleuydd.

6 Rhwystrau o ran gwybodaeth: diffyg gwybodaeth am y cyfleoedd addysgol sydd ar gael i oedolion a hoffai fod yn ddysgwyr.

# Goresgyn rhwystrau i oedolion ddysgu

Nid yw helpu dysgwyr sy'n oedolion i oresgyn y rhwystrau hyn yn dasg hawdd, ac mae'n hanfodol bod mesurau effeithiol a pharhaus yn cael eu cymryd. Mae'n cymryd amser i ddysgwyr sy'n oedolion chwilio am gwrs a phenderfynu arno, felly mae angen i negeseuon fod yn gyson a chynnwys cynnig y mae iddo hirhoedledd. Mae angen cymorth hirdymor ar ddysgwyr sy'n oedolion, ynghyd â mynediad lleol i gyrsiau, a chymorth yn y gwaith.

Mae pobl yn aml yn wynebu rhwystrau lluosog, pa un a ydynt mewn gwaith neu'n ddi-waith. Mae’n bosibl bod yna rwystrau'n bodoli sy’n gysylltiedig â: cost, gan gynnwys cynhaliaeth cynnal i dalu am gostau byw, neu fynediad at gredyd cynhwysol; amser; gofal plant; a pha un a yw'r math o ddarpariaeth yn briodol i'w ffordd o fyw.

Mae ffioedd ac arian i dalu am gostau byw yn destun pryder mawr i ddysgwyr. Yn aml, diffyg cyllid cynhaliaeth a'r angen i barhau i weithio yw’r ffactorau sy’n rhwystrau i addysg uwch. Bydd argaeledd credyd cynhwysol, a pha un a yw'n bosibl ei hawlio wrth fynychu'r coleg, yn dylanwadu ar gyfranogiad myfyrwyr. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned, mae angen gwneud mwy i ddatblygu cymysgedd creadigol ac arloesol o ffioedd cyrsiau a chymorth i ddysgwyr sy'n seiliedig ar brawf modd, a hynny fel bod traws-gymorthdaliadau yn caniatáu i ehangu ddigwydd ac yn darparu ar gyfer cynrychiolaeth gymdeithasol ehangach o ddysgwyr.

Ffactor sylfaenol arall a all fod yn rhwystr yw llwyddiant addysgol blaenorol. Po uchaf yw lefel y cymwysterau sydd gan rywun, mwyaf tebygol yw’r unigolyn dan sylw o fynd

ati’n annibynnol i chwilio am hyfforddiant pellach. Gwelwyd hyn eto yn ystod y pandemig, ac mae wedi cael ei gofnodi mewn adroddiadau diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2019), a'r Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol (2020).

Mae dysgwyr mwy hunangymhellol yn disgwyl i'r llywodraeth fod â strwythur cyflawni dibynadwy ar waith, sy’n darparu rhaglenni dysgu a seilwaith sydd wedi'u hadeiladu o amgylch yr amser a'r lle sy'n cydweddu â'u bywydau. Mae ar oedolion sydd â sgiliau isel ac sy'n debygol o fod yn llai hunangymhellol angen cymorth i gymryd y cam cyntaf, a dyna pam y mae strwythurau lleol yn y gymuned yn angenrheidiol.

# Argymhellion

Mae argymhellion 6, 7 ac 8 yn ymwneud â’r modd y gallai Llywodraeth Cymru ehangu dysgu oedolion trwy ddileu rhwystrau sy'n cadw oedolion a hoffai fod yn ddysgwyr draw oddi wrth addysg, er gwaethaf yr awydd i fynychu.

**Argymhelliad 6: Er mwyn goresgyn rhwystrau, yn ogystal â pharhau ag ymyraethau sy'n bodoli eisoes, dylid cael strategaeth aml-elfen sy'n cynyddu ymwybyddiaeth, yn annog oedolion a hoffai fod yn ddysgwyr, ac yn cymell sefydliadau addysgol a chyflogwyr i dderbyn y myfyrwyr hyn.**

**Argymhelliad 7: Er mwyn cynyddu cyfranogiad ar gyfer addysg ôl-18 ac addysg oedolion, mae angen cwmpas daearyddol teg o gyfleoedd dysgu fel nad oes yna 'loteri cod post' o weithgarwch, boed hynny'n addysg oedolion yn y gymuned neu'n addysg uwch.**

**Argymhelliad 8: Adolygu'r systemau ffioedd a thaliadau i sicrhau bod y cyrsiau hynny nad ydynt yn gymwys ar gyfer benthyciadau yn agored i bawb.**

Gall hyn arwain at sylfaen ffioedd gymysg (cost lawn a chymhorthdal) a fydd, yn ei thro, yn gwella’r broses o integreiddio a chynnwys y gymuned.

## Cynigion gweithredol

Er mwyn cefnogi'r argymhellion hyn a hwyluso'r gwaith o oresgyn rhwystrau, awgrymir y camau ymarferol canlynol:

- Gellid cyflwyno ymgyrch amlgyfrwng i feithrin ymwybyddiaeth ymhlith oedolion a newid agweddau negyddol ynghylch dysgu oedolion;
- Mae angen i sefydliadau/golegau a chanolfannau addysgol ddatblygu rhaglenni sy'n darparu ar gyfer ymrwymiadau bywyd, megis dosbarthiadau

gyda'r nos a phenwythnos, neu raglenni astudio rhan-amser gyda phresenoldeb hyblyg ac ar-lein;

- Ni ddylid cosbi darparwyr os bydd oedolion yn gohirio eu rhaglenni neu'n rhoi'r gorau i'r dysgu oherwydd ymrwymiadau gwaith a theuluol;
- Cynyddu'r sgiliau hanfodol a gynigir mewn cymunedau ac ystyried mentrau sy'n seiliedig ar leoedd;
- Gwella gwasanaethau gofal plant cyhoeddus ac annog sefydliadau addysgol i gynnig gofal plant cost isel, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n mynychu dosbarthiadau nos;
- Darparu cymorth ariannol i ddysgwyr sy'n oedolion trwy fenthyciadau, absenoldeb â thâl neu lwfansau astudio, a/neu ehangu cyfrifon dysgwyr neu waledi sgiliau;
- Ystyried datblygu siarter ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion;
- Parhau i ymchwilio i ddysgu o bell a dysgu digidol, ac i'w botensial ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion; ac
- Annog sefydliadau addysgol i gynnig trefniadau hyblyg ar-lein ac all-lein, sy'n rhoi i ddysgwyr sy'n oedolion y dewis sy'n gweddu iddynt orau.

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- Ddangos bod yna ymagwedd ledled y llywodraeth at ddysgu gydol oes;
- Darparu gwell gwybodaeth am y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi;
- Fel y nodwyd yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu, (Cymru) 2021, annog plant i gymryd rhan mewn dysgu y tu allan i addysg ffurfiol ac i ddeall dysgu fel rhan o fywyd;
- Yn ychwanegol at y pecyn cymorth i fyfyrwyr, ystyried cynnig cymhellion;
- Datblygu siarter dysgwyr yn unol â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan UNESCO;
- Datblygu fframwaith canlyniadau newydd sy'n cwmpasu cynhyrchiant a llesiant unigolion; a
- Rhoi dyletswydd ar ddarparwyr, trwy'r CTER, i gydweithio i sicrhau cyfleoedd dysgu gydol oes eang a chynhwysfawr yn ddaearyddol yn Gymraeg a Saesneg.

### Dylai sefydliadau:

- Adolygu pa un a allant ddarparu neu wella eu cynnig cyfredol ai peidio;
- Dangos llwybrau cynnydd clir i ddysgwyr;

- Gwneud addasiadau ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion mewn perthynas ag astudio rhan-amser neu hyblyg;
- Bod â threfniadau ariannol ar waith ar gyfer y dysgwyr sy'n oedolion sydd ar incwm isel (megis talu fesul modiwl, rhandaliadau a chymorth ariannol);
- Cydweithio, ynghyd â gweithio gyda chyrff eraill megis llyfrgelloedd, sefydliadau diwylliannol a sefydliadau gwirfoddol, i ddarparu cynnig dysgu gydol oes cyfoethog, arloesol ac amrywiol; a
- Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd gydol oes sy'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn rhan o weithgareddau cenhadaeth ddinesig, fel y pennir ym Mil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2021).

# Cydbwyso amcanion economaidd a chymdeithasol

Mae'r adran hon yn edrych ar y modd i sicrhau cydbwysedd rhwng amcanion economaidd a chymdeithasol dysgu gydol oes, a hynny’n bennaf trwy ddeall eu bod yn amcanion sy'n ategu ei gilydd. Mae angen ailffocysu sefydliadau, cynyddu eu presenoldeb cymunedol, a darparu gweithgareddau sy'n cefnogi natur gyfannol dysgu gydol oes.

## Gwerth economaidd dysgu gydol oes

Mae gwerth economaidd dysgu gydol oes i'r dysgwr a'r economi wedi cael ei ddogfennu'n dda (Gambin *et al*., 2014; Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2020), gyda'r sector ôl-16 yn cael mwyafswm y ffocws. Mae yna fuddion economaidd clir i bob oed o gymryd rhan mewn dysgu gydol oes, a hynny ar lefel gymdeithasol ehangach ac ar lefel unigol.

Mae llawer o adolygiadau wedi canolbwyntio ar roi gwerth ariannol i lefelau addysg penodol, ac er bod yr enillion ar fuddsoddiad yn cynyddu gyda lefel y cymhwyster, y casgliad cyffredinol oedd mai dim ond lefel 3 ac uwch sy'n rhoi mwy o werth economaidd i'r dysgwr a'r economi. Fodd bynnag, mae ymchwil fwy diweddar yn dangos y gall ennill un radd TGAU ychwanegol arwain at ganlyniadau economaidd cadarnhaol. Mae wedi dod yn amlwg fod cymwysterau lefel 2 nid yn unig yn rhoi mwy o werth economaidd ond hefyd yn gallu arwain at swyddi cynaliadwy, sy’n golygu bod pobl yn llai dibynnol ar bolisïau lles (Hayward a Lord 2014; Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, 2020). Cyfrifwyd yr elw ar fuddsoddiad mewn adroddiad ar gyfer Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin:

> **Dywed yr adroddiad fod oedolion dros 25 oed sydd â chymhwyster lefel 2 llawn yn elwa ar gynnydd o 8%, ar gyfartaledd, mewn enillion yn dilyn eu cwrs astudio, a bod hyn yn cynyddu i 10% yn achos oedolion sydd â chymhwyster lefel 3 llawn. Nododd yr adroddiad fod yr elw ar fuddsoddiad yn cynyddu gyda lefel y cymhwyster. Yn achos cymhwyster lefel 2 galwedigaethol, dywed fod yr elw ar fuddsoddiad yn £16.17 am bob £1 a fuddsoddwyd, sy'n codi i £20.70 fesul £1 a fuddsoddwyd yn achos cymwysterau galwedigaethol lefel 3, ac i £31.47 ar gyfer deiliaid gradd.** (Tŷ'r Cyffredin, 2020).

Mae angen i sefydliadau addysgol gael gafael ar wybodaeth dda am y farchnad lafur, ac mae angen iddynt hefyd fod â pherthynas leol dda â sefydliadau a llywodraethau

eraill, ynghyd â chytundeb hyblyg ynghylch yr hyn y gallant ei ddarparu, a phryd a sut y gallant ei ddarparu. Gellid ysgogi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ymateb i'r angen hwn.

# Gwerth cymdeithasol dysgu gydol oes

Mae'r nodau a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), ynghyd â dadansoddiadau diweddar eraill sydd wedi ceisio ailddiffinio cyfoeth, megis Prosiect Economi Cyfoeth Sefydliad Bennett (Prifysgol Caergrawnt, 2021), yn cyfeirio at fynegeion ffyniant a llesiant cymdeithasol sy'n mynd y tu hwnt i fesurau hanesyddol o werth economaidd. Yn yr un modd, dylid ystyried dysgu gydol oes yn gyfrannydd ac yn alluogydd allweddol i'r cysyniadau ehangach hyn o ffyniant a chyfoeth.

Dywedodd Adran Addysg y DU fod yna dystiolaeth dda o fuddion ehangach sgiliau oedolion a dysgu gydol oes (iechyd, cyflogaeth, bywyd cymdeithasol, cymuned), a bod rhai ohonynt yn golygu arbedion cyllidol sylweddol ledled y Llywodraeth (Yr Adran Addysg, 2020: 7). Yn achos oedolion hŷn (50-69 oed), mae dysgu oedolion yn gysylltiedig â chynnydd mewn llesiant, a’r rhesymau posibl am hyn yw bod dysgu'n darparu cyswllt cymdeithasol neu ymdeimlad o bwrpas, yn ogystal â gwella llesiant trwy 'lawenydd y dysgu' (What Works Wellbeing, 2017).

Yn ôl Dolan *et al.,* canfuwyd bod effeithiau dysgu oedolion i’w gweld ar eu mwyaf ym maes iechyd ac iechyd meddwl, a bod cyfranogi mewn dysgu ffurfiol yn gysylltiedig â gostyngiad mewn ymweliadau i feddygfeydd teulu (Dolan *et al.*, 2012: 7). Yn achos oedolion rhwng 33 a 42 oed, roedd cymryd rhan mewn cwrs neu ddau yn gysylltiedig â chynnydd o 3% yn y tebygolrwydd o roi'r gorau i smygu; ac roedd tri i ddeg cwrs yn cynyddu cyfranogiad mewn ymarfer corff o 38% o bobl i 45% (Feinstein a Hammond, 2004).

Mae yna dystiolaeth ar gael hefyd i gefnogi'r honiad bod dysgu gydol oes yn arwain at gymunedau cryfach a mwy gofalgar, elfennau sy’n cael eu mesur yn ôl ymdeimlad uwch o berthyn a chynhwysiant, a lefelau uwch o wirfoddoli ac ymgysylltu gwleidyddol. Ar ôl dilyn cwrs gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr, nododd 36% o ddysgwyr fwy o ymdeimlad o berthyn i'r gymuned, ac ymgymerodd 15% â gwaith gwirfoddoli cymunedol (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, 2019).

## Dysgu gydol oes a llesiant yr unigolyn

Mae dysgu gydol oes wedi cael ei gysylltu â gwell llesiant meddyliol, ac mae wedi arwain at adferiad o salwch iechyd meddwl ymhlith 52% o bobl â symptomau clinigol sylweddol (Ipsos MORI *et al.,* 2018).

At hynny, canfuwyd cyfraddau cwblhau uchel ymhlith dysgwyr ag anawsterau iechyd meddwl, gyda chyfradd o 76% yn cael ei chofnodi; a nododd Coleg Highbury yn Portsmouth gyfraddau cadw o tua 95% ymhlith pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus. Mae hyn yn anghytuno â'r ddadl bod cyfraddau cadw isel ymhlith pobl ag anawsterau iechyd meddwl yn codi: er enghraifft (Ipsos MORI *et al.,* 2018).

Mae canlyniadau fel y rhain yn awgrymu y gallai dull mwy integredig o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau addysg ac iechyd, ynghyd â pherthynas agosach rhwng darpariaethau lleol ym meysydd iechyd a dysgu oedolion yn y gymuned, wneud cyfraniad cadarnhaol i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei nod o ddarparu gofal iechyd effeithiol, o ansawdd uchel a chynaliadwy (Cara, 2021).

Mae'r rhesymau economaidd a chymdeithasol dros ddysgu gydol oes yn cefnogi ei gilydd. Mae'r rhesymau dros barhau i ddysgu yn niferus, ac mae'r dystiolaeth yn dynodi nad dim ond anghenraid economaidd yw dysgu gydol oes, ond ei fod hefyd yn anghenraid cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Daeth y Tîm Foresight yn Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Llywodraeth y DU â thystiolaeth ynghyd o'r buddion ehangach (Schuller, 2017). Nododd y dystiolaeth hon fod dysgu anffurfiol yn arwain at fwy o hyder, tasgau gwaith yn cael eu cyflawni'n well, a chynhyrchiant uwch; gall dysgu ffurfiol wella cynhyrchiant ac incwm. Felly, efallai na fydd yn ofynnol mynd ati i ystyried mathau gwahanol o ddysgu ar wahân, ond yn hytrach ganolbwyntio ar anghenion unigolion, a darparu neu hwyluso'r hyn y mae arnynt ei angen ar gyffyrdd penodol yn eu bywyd.

## Cydnabyddiaeth annigonol o werth cymdeithasol dysgu

Un o nodweddion dirnadol dysgu gydol oes sy'n ei wneud yn wahanol i ymyraethau hyfforddi sgiliau eraill yw ei fod yn ymwneud â'r unigolyn ac yn gallu mynd i'r afael â natur newidiol gwaith unigolion yn ystod eu hoes. Dros y deng mlynedd ddiwethaf, bu yna duedd i ganolbwyntio ar ddysgu ar gyfer sgiliau yn hytrach nag ar ddatblygiad personol yr unigolyn. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu dewis rhwng y ddau gan fod y naill yn sail i’r llall.

Mae hyn yn amlwg ar safleoedd a champysau nad ydynt yn agored i weithgarwch cymunedol gan eu bod yn arwain at lai o oedolion yn ymuno â dosbarthiadau a chyfranogiad is. Ar yr un pryd, mae systemau addysg gymunedol wedi cael llai o adnoddau i ateb y galw hwn nas diwallwyd. Gallai lefelau isel o ddysgu cymunedol yng Nghymru (gweler RCU, 2021) gyfrannu, yn eu tro, at lefelau is o ddysgu galwedigaethol ffurfiol, a hynny am nad yw dysgwyr yn gweld campysau fel lleoedd i fynd iddynt am gymorth ar gyfer eu hanghenion. Mae hyn wedyn yn cyfrannu at lai o sgiliau a chynhyrchiant.

Trwy ddangos bod addysg coleg yn ‘bont i’r farchnad lafur’, canfu adolygiad a gynhaliwyd yn yr Alban fod myfyrwyr wedi dod i'r casgliad fod dysgu'n hafal i gaffael y sgiliau gofynnol i gyflawni cymwysterau ar gyfer cyflogaeth (Cyngor Cyllido'r Alban, 2020). Yn benodol, mae colegau mwy wedi dod yn fannau pragmatig ar gyfer caffael cymwysterau, yn hytrach na bod yn fannau cymunedol lle gall myfyrwyr adeiladu cyfalaf cymdeithasol a dynol. Mae colegau wedi canolbwyntio ar gaffael cyllid a bodloni nodau dangosyddion perfformiad, yn hytrach na meithrin profiad dysgu cyflawn ar gyfer myfyrwyr. I'r gwrthwyneb, canfuwyd bod colegau llai yn fwy llwyddiannus o ran sicrhau ffocws ar y gymuned a chynyddu nifer y myfyrwyr.

Mae'n bosibl bod uno colegau, ynghyd â'r farn bragmataidd hon am ddysgu, wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg oedolion yng Nghymru. Rheswm arall dros y duedd hon yw'r prociad canfyddedig sy’n deillio o’r iaith a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o gyllid, a'r symudiad i fonitro canlyniadau. Gallai hyn olygu bod swyddi ac enillion arweinwyr sefydliadau yn cael eu cysylltu â chyllid yn y dyfodol. Er mwyn goresgyn hyn, gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno dangosyddion perfformiad sy'n mesur llesiant personol yn ogystal â chanlyniadau economaidd.

# Argymhelliad

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru greu amgylchedd sy'n galluogi a thrin dysgu gydol oes fel system unedig sy'n edrych ar anghenion cyfannol dysgwyr er gwaethaf eu hoedrannau neu eu cefndiroedd, sy’n darparu gwell gwybodaeth, ac sy’n rhoi gwell cymorth i awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol a dysgwyr.**

# Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r adran hon yn archwilio rôl y llywodraeth yn y broses o greu amgylchedd sy'n galluogi ar gyfer dysgu gydol oes, rôl y CTER o ran pennu agenda ac ysgogi arfer da, a rôl rhanddeiliaid eraill yn y system.

## Rôl y llywodraeth yn y broses o greu amgylchedd sy'n galluogi

Mae gan y Llywodraeth rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o greu amgylchedd sy'n galluogi, ac o ran darparu naratif cyson ar ddysgu gydol oes sy'n dechrau gydag addysg cyn meithrin ac yn parhau trwy gydol oes. Mae UNESCO (2020) yn nodi sawl elfen allweddol sy'n ofynnol i greu'r diwylliant i ddysgu gydol oes ffynnu (gweler **Ffigur 4**):


- **'Adeiladwaith cymdeithasol cadarn: cytundeb gan bawb sydd ynghlwm i gydweithio yn erbyn tlodi, gwahaniaethu ac anghydraddoldeb.**
- **Cyllid digonol ac adnoddau'n cael eu paratoi: dealltwriaeth o gyfrifoldeb ariannu pob partner – mae gan unigolion, y wladwriaeth a chyflogwyr rôl.**
- **Technoleg hygyrch a ddefnyddir yn dda: seilweithiau digidol â mynediad agored a diogelu hawliau sylfaenol.**
- **Newid diwylliannol tuag at ddysgu gydol oes: mewn systemau addysg a sefydliadau, ac ym meddyliau pobl.**
- **Y gwerth cymunedol sydd i addysg a dysgu: dysgu gydol oes yn lles cymdeithasol, nid nwydd.**
- **Polisïau addysg cynhwysol: i sicrhau cynllunio a rhaglennu sy'n seiliedig ar anghenion.**
- **Mannau lluosog ar gyfer dysgu: defnyddio'r holl seilwaith cyfredol ar gyfer dysgu – ysgolion, prifysgolion, colegau, cyflogwyr, safleoedd cymunedol ac amgylcheddau digidol.**

- **Defnydd beirniadol o'r cyfryngau cymdeithasol: gwrthweithio gwybodaeth anghywir a hyrwyddo dysgu ar y cyd.'** (UNESCO, 2020: 16)

Efallai y byddem hefyd yn ychwanegu'r canlynol at y rhestr hon:

- **Llywodraeth gydgysylltiedig:** polisi addysg sydd wedi'i gysylltu ar y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a hynny trwy waith cefnogi a hybu systematig.

### Ffigur 4: Creu amgylchedd galluogi ar gyfer dysgu gydol oes




Ffynhonnell: Addaswyd o UNESCO (2020).

# Rôl cyrff hyd braich yn y system dysgu gydol oes

Y meysydd a amlygir yn y llenyddiaeth a'r dogfennau canllaw sy'n cefnogi'r broses o sefydlu a rhoi cyrff hyd braich ar waith mewn modd effeithiol yw'r canlynol:

- Atebolrwydd ac eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau;
- Dogfennau a chanllawiau ac iddynt gwmpas clir; a
- Rheoli perthnasoedd gwerthoedd a rennir (Rutter *et al.*, 2012).

## Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Mae Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a gyhoeddwyd ar 1 Tachwedd 2021 yn amlinellu mai un o ddyletswyddau strategol y CTER yw hyrwyddo dysgu gydol oes, Blwch 3.

## Blwch 3: Dysgu gydol oes ym Mil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) (2021)

**Hyrwyddo dysgu gydol oes**

**Rhaid i'r Comisiwn hybu addysg drydyddol ar gyfer pobl Cymru —**

**(a) sy'n darparu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn addysg drydyddol drwy gydol eu bywydau o 16 oed;**

**(b) sy'n cynnwys amrywiaeth o lefelau astudio a mathau o gymhwyster;**

**(c) sy'n cynnwys amrywiaeth o leoliadau addysgol a dulliau astudio;**

**(d) sydd wedi ei threfnu'n gydlynol i hwyluso symudiad dysgwyr trwy gamau gwahanol addysg drydyddol ac i gyflogaeth neu fusnes;**

**(e) sydd fel arall yn bodloni gofynion gwahanol y rheini a all ddymuno ymgymryd ag addysg drydyddol.**

**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2021b**


Bydd cyflwyno cynllun ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn bwysig i sicrhau bod yr ystod o fuddion o bob math o ddysgu gydol oes yn cael eu meithrin. Er mwyn llywio'r broses weithredu, byddai angen i ddogfennau yn y dyfodol dynnu sylw at

bwysigrwydd dysgu oedolion, ac i gynigion drafod y modd i blethu’r sectorau addysg oedolion gwirfoddol ac anffurfiol i'r fframwaith AHO newydd. Bydd darn pwysig o ddeddfwriaeth ychwanegol yn diffinio'r 'cyfleusterau priodol' y mae Bil 2021 yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn Adran 91.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dwyn ynghyd adrannau allweddol y llywodraeth i hysbysu a chynorthwyo'r CTER ar bob mater sy'n ymwneud â dysgu gydol oes. Er bod gweledigaeth AHO yn egluro rolau a chyfrifoldebau, dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r datganiadau hynny yn y dogfennau comisiynu ffurfiol. Efallai y byddai hefyd o fudd tynnu ar gyngor arfer gorau ar greu a datblygu cyrff cyhoeddus anadrannol, gan gynnwys Barber (2021) a Rutter *et al.* (2012).

Mae eglurder y rolau a'r perthnasoedd rhwng pawb sydd ynghlwm yn allweddol i sicrhau bod y system gyfan yn gweithio'n effeithiol. Mae **Ffigur 5** yn dangos y modd y gellid rhannu'r rolau. Yn y system hon, byddai'r rolau allweddol wedi’u lleoli yn y CTER ac yn Estyn, a byddid yn ystyried sylfaen y sefydliadau ôl-18 yn bartner allweddol y gellid ymddiried ynddo, ac yn gyd-berchennog polisi a gweithredu, yn hytrach na’i fod yn gontractwr neu’n ddarparwr yn unig.

**Ffigur 5: System dysgu gydol oes i Gymru**



Fodd bynnag, un o anfanteision y cynnig yn **ffigur 5** yw ei fod yn gofyn i'r CTER bennu meysydd sgiliau blaenoriaethol, llywio'r angen, a monitro perfformiad. Gall hyn roi straen ar y sefydliad newydd gan y bydd yn cael y dasg o fonitro ei berfformiad ei hun. Mae angen myfyrio ar hyn a'i ystyried ymhellach, yn enwedig o ran pa un a all Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol gyflawni rôl yr arsyllfa dysgu gydol oes, ac a ddylid rhoi'r dasg iddynt gasglu ac ystyried data ar leoedd, bylchau mewn sgiliau a galw, a thynnu sylw at ddiffyg cyfatebiaeth rhwng y galw a'r cyflenwad. Gallai hyn gynnwys NEETs a lleoedd i ddysgwyr, a/neu fylchau mewn sgiliau a hyfforddiant, lleoedd mewn prifysgolion, llesiant a diffyg gweithgarwch rhagnodi cymdeithasol, a/neu brinder darpariaeth dysgu teuluol ar gyfer plant ysgol a rhieni.

# Argymhellion

Mae ymgorffori'r arferion gwaith hyn mewn sefydliadau yn bwysig ar gyfer darparu a chreu diwylliant o ddysgu gydol oes; rôl sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru. Mae'r sefydliadau'n cynnwys y CTER, Estyn, gwasanaethau gyrfaoedd a thrwy bartneriaethau strategol, cyllid a fframweithiau, gyda meithrinfeydd, ysgolion, colegau, prifysgolion, a lleoliadau dysgu oedolion yn y gymuned, a chyflogwyr ac undebau i gyflwyno a chreu diwylliant o ddysgu gydol oes.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl hefyd o ran sicrhau bod holl adrannau perthnasol llywodraeth y DU yn ymrwymo ac yn cyflwyno cyfleoedd i wella dysgu gydol oes. Er enghraifft, gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau y gall pobl ddi-waith gael hyfforddiant ystyrlon; neu gyda phrosiectau seilwaith mawr, gan sicrhau bod i'r broses gaffael gymal sy'n nodi y dylai unrhyw gontractwr ymrwymo i gyflogi prentisiaethau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fod yn arloesol yn ei defnydd o alluoedd a chyrhaeddiad cyrff a sefydliadau eraill i ddatblygu cynnig gydol oes cynhwysfawr, a diwylliant o ddysgu. Gall gydweithio â sefydliadau addysgol a diwylliannol megis Amgueddfa Cymru, llyfrgelloedd cyhoeddus, y Llyfrgell Genedlaethol, Cymdeithas Ddysgedig Cymru, cymdeithasau hanes lleol, y sector gwirfoddol, cyrff chwaraeon, a Phrifysgol y Drydedd Oes.

## Rhannu cyfrifoldebau llywodraethu

Yn achos y system dysgu gydol oes ôl-16 i Gymru, awgrymir y byddai rhannu'r cyfrifoldebau fel a ganlyn yn rhaniad effeithiol:

- **Llywodraeth Cymru:**
  - Pennu'r strategaeth draws-lywodraeth gyffredinol;
  - Datganoli cyllid i sefydliadau drwy grant bloc;
  - Pennu hawliau dysgwyr;

    - Gosod mesurau canlyniadau; a
    - Darparu systemau meincnodi sylfaenol.
- **Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil:**
    - Gosod strategaeth a pholisïau;
    - Pennu blaenoriaethau gwariant;
    - Pennu mesurau canlyniadau darparwyr; a
    - Rheoli systemau a pherthnasoedd addysg bellach, addysg oedolion ac addysg uwch.

## Canlyniadau, gwerthoedd a rolau

Er mwyn sicrhau bod y systemau sylfaenol yn rhai effeithiol, argymhellir bod canlyniadau allweddol, sylfaen gwerth a rennir a rolau allweddol yn cael eu datblygu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr. Dylai'r gwerthoedd sylfaenol fod yn seiliedig ar gydweithio a phartneriaeth, gan gynnwys y bartneriaeth gymdeithasol; dylent adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys meysydd o bwysigrwydd strategol i'r economi a chymdeithas; a dylent gynnwys system fonitro a dysgu ac iddi adolygiadau byrdymor a hirdymor sy'n cefnogi gwelliannau i'r system.

### Nodau a chanlyniadau a rennir

- Diwylliant dysgu gydol oes;
- Twf economaidd trwy gystadleurwydd byd-eang;
- Cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol; a
- Defnydd effeithlon o arian cyhoeddus.

### Gwerthoedd a rennir

- Rheoleiddio cymesur – yn seiliedig ar risg, baich isel, ymyrraeth i gefnogi anghenion dysgwyr;
- Dan arweiniad dysgwyr a chyflogwyr;
- Cydweithrediad – partneriaeth gymdeithasol;
- Cymorth sy’n canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol; a
- Camau gweithredu i sicrhau'r gallu i ymateb i feysydd o bwysigrwydd strategol i'r economi ac anghenion cymdeithasol.

### Rôl y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

- Sicrhau bod grwpiau sydd wedi'u difreinio a grwpiau difreintiedig yn gallu mynd fwyfwy ar drywydd addysg, a hynny mewn modd mwy effeithiol;
    - Cynyddu cyfranogiad a arweinir gan gyflogwyr;
    - Sicrhau mwy o gysondeb rhwng y galw gan unigolion a'r galw gan gyflogwyr;
- Rhag-weld yr anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol trwy gyfrwng gwybodaeth gan lais y myfyriwr;
- Cyfateb yr angen i raglenni;
- Sicrhau bod gan ganran uwch o'r boblogaeth sgiliau hanfodol;
- Sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer pobl gymwys 16-19 oed a thros 19 oed;
- Hyrwyddo llesiant economaidd a chymdeithasol Cymru;
- Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol; a
- Hyrwyddo gwelliant mewn addysg ac ymchwil.

### Rôl prifysgolion, colegau a sefydliadau dysgu

- Trefnu darpariaeth ymatebol sy'n diwallu anghenion sgiliau a llesiant y presennol a'r dyfodol;
- Sefydlu system ar gyfer llais y dysgwr;
- Sicrhau y rhoddir gwerth ar athrawon a thiwtoriaid;
- Cynyddu arloesedd ac amrywiaeth y ddarpariaeth;
- Cynyddu'r cymorth i ddysgwyr;
- Darparu llwybrau cynnydd eglur;
- Darparu data perfformiad;
- Cyrraedd y gymuned i sicrhau bod y rhai sydd bellaf i ffwrdd o gymdeithas neu waith yn cyfranogi;
- Bod yn arloesol yn y defnydd o dechnolegau a llwyfannau digidol, gan gynnwys Cyrsiau Agored Enfawr Ar-lein (CAEA), i ledaenu'r wybodaeth a gynhyrchir ym mhrifysgolion Cymru; a

- Cydweithio i wella'r cynnig cyffredinol, i sicrhau cynnydd, ac i gael y gwerth gorau.

Dylai'r CTER a'r sefydliadau gydweithio, a hynny yn unol â’r gwerthoedd a rennir, a chyda'r nodau a'r canlyniadau a rennir mewn golwg.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil y dasg o sefydlu set gytûn o ganlyniadau ar gyfer y system dysgu gydol oes, set sy'n mesur sgiliau, cyflogaeth a buddion ehangach dysgu; a hynny trwy bartneriaethau sy'n seiliedig ar werthoedd a rennir; a chan bennu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer pob rhan o'r system.**

# Cefnogi sefydliadau i gynyddu cyfranogiad

Mae'r adran hon yn ystyried y ffordd orau o gefnogi sefydliadau a rhanddeiliaid i estyn y ddarpariaeth a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu gydol oes.

Mae'n ymddangos bod y system addysg gyfredol yn ffafrio'r rhai a gyflawnodd yn dda yn yr ysgol. Ychydig iawn sy’n cael ei wario ar addysg a gofynion sgiliau y bobl hynny y mae cefnogaeth yn y gymuned a thrwy allgymorth yn ofynnol ar eu cyfer. Nid oes yna fawr o gydnabyddiaeth chwaith ei bod yn ofynnol i’r oedolion hyn (sy'n aml yn hŷn) gael mathau o gymorth cofleidiol megis mentora, meithrin hyder, cymorth iechyd meddwl, a chymorth sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar sylweddau megis cyffuriau ac alcohol.

Y themâu a'r materion a fynegir yn rheolaidd gan gyrff sy'n cynrychioli'r sector ôl-16 o ran y modd y gall y llywodraeth gefnogi sefydliadau a rhanddeiliaid i gyflawni yw: mwy o gyllid, cysondeb y neges, eiriolaeth dros addysg a sgiliau, a gweledigaeth hirdymor ac iddi gyllid i gyd-fynd â'r bwriad. Dylid cydnabod hefyd fod sefydliadau'n adnabod eu hardal a'u myfyrwyr, a'u bod yn y sefyllfa orau i bennu beth yw anghenion y gweithlu lleol. Maent yn gallu gweithio fel cyfangorff a chydweithio i sicrhau bod yna drywyddau a llwybrau cynnydd eglur ar gael i ddysgwyr.

**Cysondeb o ran cynnal negeseuon a’r naratif allweddol:** Mae sefydliadau'n awyddus i weld y llywodraeth yn darparu negeseuon cyson ar ddysgu gydol oes, a’r rheiny’n cael eu hategu gan fframwaith arweiniol cefnogol. Pe bai yna naratif dysgu gydol oes cyson eisoes ar waith, byddai sefydliadau addysg yn fwy hyderus o ran darparu adnoddau a chynllunio ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth.

**Gweledigaeth hirdymor a sicrwydd ariannu:** Mae sefydliadau'n wynebu ansicrwydd ariannol. Heb wybodaeth allweddol hirdymor am gyllid ac adnoddau cyfalaf, mae'n anodd blaengynllunio, ac mae hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn anodd ehangu cwricwla. Felly, pe bai'r llywodraeth yn cynnig dyraniadau cyllideb dangosol tair blynedd sy'n hwyluso twf, byddai'n dileu'r gofyniad i wneud cais trwy gynlluniau peilot, a byddai'n creu'r sefydlogrwydd y mae ar ddarparwyr ei angen i dyfu eu cynnig.

**Cydnabod mai sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar yr angen:** Er bod yna angen am arsyllfa genedlaethol, ynghyd ag angen i ddwyn ynghyd wybodaeth allweddol am bwyntiau newid, sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda chyflogwyr a/neu fentrau cymdeithasol a meysydd eraill, megis gofal iechyd, i

bennu anghenion a chreu eu cynnig. O ystyried y modd y gellir eu helpu i estyn eu darpariaeth, gwelir bod arnynt angen data rhanbarthol a chenedlaethol ar dueddiadau newydd, cymorth ariannol, a chymorth yn eu rôl o bennu eu cynnig eu hunain o fewn cynllun neu fframwaith rhanbarthol. Rhaid nodi bod yna bryder yn bodoli ymhlith rhai rhanddeiliaid y bydd y CTER newydd yn ceisio cyflawni'r swyddogaeth hon yn ganolog ar gyfer Cymru gyfan, ac yn gosod cynnig cenedlaethol heb ymgynghori â'r sefydliadau yn y sector.

**Llywodraeth gydgysylltiedig:** Mae llawer o ganlyniadau dysgu gydol oes yn cael effaith fuddiol ar waith adrannau eraill. Felly, er mwyn cefnogi sefydliadau i ddarparu dysgu, mae'n ofynnol cael ymdeimlad o lywodraeth gydgysylltiedig ym mhob cyfnod mewn bywyd, a hefyd drwy ryngweithiadau â gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, cymorth lles a chyflogaeth, a llyfrgelloedd a chymunedau, yn ogystal â'r system addysg ffurfiol.

**Cydweithio:** Mae cydweithio da ar gael eisoes yng Nghymru, lle mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dwyn ynghyd golegau addysg bellach a darparwyr dysgu oedolion awdurdodau lleol i bennu'r hyn sy'n ofynnol, a pha sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i'w ddarparu. Mae gan lawer o golegau AB gytundebau ariannol â darparwyr awdurdodau lleol i gyflawni eu gwaith allgymorth, lefel mynediad a lefel 1. Mae hyn yn gwneud y defnydd gorau o gyllideb gyfyngedig ac yn cefnogi oedolion nad ydynt yn barod ar gyfer rhaglenni colegau. Dylid annog y math hwn o berthynas â sefydliadau addysg uwch, lle mae adnoddau'n cael eu rhannu â sefydliadau eraill, ac â'r gymuned.

**Llwybrau cynnydd dysgwyr:** Byddai cydweithio yn helpu i sicrhau trywyddau a llwybrau cynnydd eglur i ddysgwyr. Mae sefydliadau a'u cyrff cynrychioliadol yn awyddus i gyflawni hyn. Byddai'r dull hwn yn helpu'r dysgwr ac yn rhoi'r hyder i'r llywodraeth nad yw cyllid yn cael ei ddyblygu.

# Argymhellion

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau trwy brosesau hyrwyddo ac eiriolaeth cenedlaethol, gan barhau â'r gwaith cynllunio lleol, a chefnogi sefydliadau lleol i bennu anghenion lleol a chenedlaethol a darparu ar eu cyfer.**

**Argymhelliad 12: Dylai sefydliadau ymrwymo i bartneriaethau gwirfoddol i sicrhau bod ystod lawn o gyfleoedd dysgu gydol oes yn cael eu darparu, a bod eu cyfleusterau a'u gwybodaeth yn cael eu rhannu â'u cyd-weithwyr a'u cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r partneriaethau gwirfoddol hyn yn gyson ac, os oes angen, fod yn barod i ddeddfu.**

**Argymhelliad 13: Dylai'r Llywodraeth, trwy'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ymdrechu i ddarparu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu gydol oes, eiriol dros ddysgu am oes, darparu sicrwydd ariannu tair blynedd, ac adeiladu sylfaen darparwyr ddibynadwy a all bennu, gyda chyngor gan yr RSP, y cynnig lleol.**

# Cymharu'r cynnig Cymreig â rhannau eraill o'r DU

Mae'r adran hon yn rhoi persbectif cymharol ar addysg bellach, addysg uwch, addysg oedolion, addysg heb fod yn ffurfiol, a meysydd cymorth, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau yn Lloegr o gymharu â Chymru. Gall datblygiadau yng ngwledydd eraill y DU effeithio ar Gymru am nifer o resymau, gan gynnwys y canlynol:

1. Disgwyliadau preswylwyr o ran yr hyn y mae'r addysg a’r sgiliau yn ei gynnig, sef elfen a allai ddod o dan ddylanwad yr hyn y mae preswylwyr Cymru yn ei weld ar gyfryngau’r DU yn gyffredinol;
2. Presenoldeb myfyrwyr mewn sefydliadau dros y ffin; ac
3. Effeithiau newidiadau ar feysydd megis hyfforddiant athrawon.

Mae gan bob gwlad yn y DU fwyafrif yr elfennau sy’n ffurfio strategaeth dysgu gydol oes ffurfiol. Ar ffurfiau gwahanol, mae gan bob un chwe cham addysg: y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, addysg bellach, addysg uwch, ac addysg oedolion.

Mae'r gyfraith yn nodi bod addysg lawn-amser yn orfodol i bob plentyn dan 16 oed, gan ddechrau rhwng pedair neu bump oed. Fodd bynnag, yn Lloegr, mae addysg neu hyfforddiant gorfodol wedi cael eu hestyn i 18 oed yn achos y rhai a anwyd ar 1 Medi 1997 neu wedi hynny (gweler yr adran ar hawliau a hawlogaethau).

## Addysg bellach

Mae addysg bellach 16-19 yn cwmpasu Safon Uwch, y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg (BTEC), ac addysg nad yw'n addysg uwch, a all gynnwys addysg drydyddol ac y gellir ymgymryd â hi mewn colegau ac ysgolion addysg bellach (yn cynnwys colegau trydyddol). Mae’r ddarpariaeth addysg oedolion yn aml yn cael ei chynnwys yn llenyddiaeth y sector addysg bellach, ac mae'n cwmpasu pob gweithgarwch (ffurfiol ac anffurfiol) ôl-18. Mae’r rhain yn croestorri o fewn addysg bellach, addysg oedolion ac addysg uwch, ac yma hefyd y mae’r gwahaniaethau ar eu mwyaf amlwg.

Yn Lloegr, mae yna ymdrech i newid y cynnig ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. Dechreuodd hyn gyda newid i’r cymwysterau TGAU a Safon Uwch, ac mae bellach yn canolbwyntio ar gyflwyno Lefelau Technegol (Lefelau T) galwedigaethol newydd.

Y colegau addysg bellach cyffredinol, y sector dysgu oedolion yn y gymuned a'r sector annibynnol sy’n cyflenwi’r ddarpariaeth ar gyfer oedolion ym mhob un o

wledydd y DU. Y prif lwybr ariannu yw trwy asiantaeth ariannu (a all fod yn rhan o adran o'r llywodraeth neu’n gorff hyd braich yn Lloegr), llwybr sydd wedi cael ei wella o ganlyniad i gyllid uniongyrchol gan yr Adran Addysg a Sgiliau trwy brosesau caffael. Mae'r cronfeydd newydd hyn yn rhan o bapur gwyn Llywodraeth y DU, 'Skills for jobs: lifelong learning for opportunity and growth’ (2021). Mae hwn yn nodi diwygiadau i addysg a hyfforddiant technegol ôl-16 i gefnogi pobl i ddatblygu'r sgiliau gofynnol i gael swyddi da a gwella’r cynhyrchiant cenedlaethol. Mae'n cynnig gwarant sgiliau gydol oes, a fyddai'n caniatáu i bawb gael benthyciad i ariannu'r addysg a'r hyfforddiant y byddai arnynt eu hangen trwy gydol eu bywyd. Bydd yr hawl newydd hon yn rhan o gyfres o hawliau sydd eisoes yn bodoli, sy'n cynnwys hyfforddiant Saesneg, Mathemateg a sgiliau digidol rhad ac am ddim hyd at, ac yn cynnwys lefel 2, a’r lefel 2 gyntaf ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed. Mae yna hefyd gynnig lefel 3 rhad ac am ddim ar gael i'r rhai nad oes ganddynt lefel 3 mewn 400 o feysydd pwnc yr ystyrir bod iddynt werth economaidd uchel. Nid yw'r cynnig hwn ar gael yng Nghymru, a dylid ystyried cyflwyno hawl debyg ar gyfer lefel 3.

Mewn ymateb i'r pandemig, mae Lloegr hefyd wedi rhoi tair rhaglen newydd ar waith: Bŵt-campau ar gyfer digidol; Kickstart sy'n cael ei redeg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau; a chymhellion ar gyfer Prentisiaethau. Mae'r holl fentrau hyn wedi cael eu hysbysebu'n ddyfal ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys yng Nghymru.

Mae'r rhaglen Prentisiaethau yn fenter fawr sy'n effeithio ar breswylwyr a chyflogwyr Cymru, ac sydd ar gyfer pob oedran. Mae'r system ardoll brentisiaethau yn cael ei gweithredu'n wahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr, ac erbyn hyn mae yna wahaniaethau yn bodoli o ran safonau, fformat a’r defnydd o’r ardoll y mae cyflogwyr mawr ledled y DU yn ei chodi, elfen y bydd yn ofynnol ei datrys ymhen amser.

# Addysg uwch

Diffinnir addysg uwch ym mhob gwlad yn y DU yn astudiaeth y tu hwnt i Safon Uwch neu BTEC (a chymwysterau cyfwerth), ac sydd, i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr llawn-amser, yn cael ei chynnal mewn prifysgolion, a sefydliadau a cholegau addysg uwch eraill. Mae wyth prifysgol a 15 o golegau a sefydliadau addysg bellach i’w cael yng Nghymru.

Mae system benthyciadau AU Lloegr wedi arwain at sicrhau bod mwy o arian ar gael i gefnogi rhaglenni ôl-18 eraill, megis y rhai ar gyfer dysgwyr â sgiliau sylfaenol gwael, lefelau 3 rhad ac am ddim, a chymorth i ddysgwyr. Mae yna hefyd gyllideb ar gyfer dysgu cymunedol, ac mae'r darparwyr awdurdodau lleol penodol hynny wedi cael caniatâd i dyfu trwy wneud defnydd o ffrydiau ariannu eraill.

Mae cymhorthdal Llywodraeth Cymru yn fwy hael nag yn Lloegr ond nid yw'n mynd cyn belled â'r Alban, lle mae addysg uwch yn dal i fod yn rhad ac am ddim ac yn dod o dan grantiau. Mae'r cynllun peilot yng Nghymru, sy'n cynnwys costau cynnal a chadw, yn flaengar ac yn arwain y ffordd ar gyfer gweddill y DU.

Heblaw am gostau a'r sawl sy'n talu, mae'r croestoriad arall yn ymwneud â bod y cymwysterau yn rhifiadol (Lloegr) neu'n llythrennau (Cymru). Mae yna wahaniaeth hefyd o ran cymwysterau galwedigaethol, gyda Lefelau T yn tra-arglwyddiaethu, a phrifysgolion Lloegr yn cael eu hannog i'w derbyn. Nid oes tystiolaeth eto y bydd pobl ifanc Cymru o dan anfantais ond, os bydd prifysgolion Lloegr yn dechrau adeiladu ar eu cynnig o raglenni er mwyn parhau ar y daith Lefelau T, a myfyrwyr Cymru ddim yn astudio'r un cynnwys, gallent fod o dan anfantais. Nid oes tystiolaeth ar gael eto o ran a yw'r diwygiadau i TGAU yn Lloegr o gymorth ai peidio i Gymru mewn perthynas â gwella perfformiad a chyflawniad, ond dylid rhoi ystyriaeth i'r newid yn achos y graddau (o lythrennau i rifau) gan ei fod yn drysu cyflogwyr cenedlaethol ac yn cymhlethu ceisiadau i brifysgolion.

# Addysg oedolion

Darperir addysg oedolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru gan wasanaethau addysg oedolion awdurdodau lleol, Addysg Oedolion Cymru, colegau AB cyffredinol a rhai prifysgolion, ac mae nifer o ddarparwyr annibynnol yn darparu prentisiaethau i oedolion. Mae'r cynnig i oedolion yn amrywio o fynediad i brifysgol, pynciau TGAU, pynciau Safon Uwch a chyrsiau galwedigaethol, i gyrsiau ar gyfer llesiant a chyfoethogi personol. Mae Cyfrif Dysgu Personol i Oedolion, sy'n darparu cyfleoedd datblygu sgiliau, wedi cael ei dreialu.

Daw'r arian o linellau ariannu gwahanol. Caiff Dysgu Oedolion yn y Gymuned ei drin gan Lywodraeth Cymru fel math penodol o ddarpariaeth addysg y mae'n ei ariannu trwy'r Grant Dysgu Cymunedol i awdurdodau lleol. Defnyddir hwn hefyd i ariannu Addysg Oedolion Cymru (sefydliad addysg bellach Cymru gyfan). Mae'r blaenoriaethau ar gyfer ariannu trwy gyfrwng y Grant Dysgu Cymunedol yn cael eu pennu yn natganiad polisi 2017, Addysg Oedolion yng Nghymru. Mae'r blaenoriaethau hyn fel a ganlyn:

- Datblygu sgiliau hanfodol mewn cyfathrebu (gan gynnwys yn Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, ESOL), cymhwyso rhif, a llythrennedd digidol er mwyn sicrhau bod dysgwyr sy'n oedolion yn y sefyllfa orau i fanteisio ar gyfleoedd gwaith neu i symud ymlaen pan fyddant mewn cyflogaeth;
- Datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol;

- Rhaglenni i alluogi dysgwyr hŷn i wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd, a rhaglenni ymgysylltu cymdeithasol i'w galluogi i gymryd rhan yn anffurfiol mewn dysgu, a’r dysgu hwnnw’n cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant ar yr un pryd;
- Rhaglenni i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu â rhieni ac i ailennyn diddordeb oedolion mewn dysgu; a
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Nid yw’r ffaith bod cwrs yn flaenoriaeth yn golygu bod y cyrsiau hyn yn cael eu cynnig yn rhad ac am ddim neu eu bod ar gael i bob preswylydd; er y gallai preswylydd o Gymru deithio i Loegr i osgoi talu am gwrs. Fodd bynnag, mae rheolau ariannu Lloegr yn datgan nad oes disgwyl i golegau recriwtio niferoedd mawr, ac maent hefyd yn gofyn i golegau beidio â hysbysebu yng Nghymru.

Yn Lloegr, caiff y system gyfredol ar gyfer addysg oedolion ei chyfarwyddo gan y llywodraeth trwy gyfres o hawliau cyfreithiol, datganiad polisi etifeddol ar sgiliau oedolion, a chanllawiau a rheolau ariannu y mae'n rhaid i ddarparwyr gadw atynt. Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae menter wedi bod ar waith i symud arian o’r llywodraeth ganolog i awdurdodau cyfun sy'n gweithio gyda'u partneriaethau menter lleol mewn wyth ardal; ac mae gan Fanceinion, Sheffield, Peterborough, Caergrawnt a Llundain i gyd Fargen Sgiliau.

Mae cyfran fawr o'r gyllideb addysg oedolion yn Lloegr bellach wedi'i datganoli i Awdurdodau Cyfunol. Disgwylir y bydd y papur gwyn ar ddatganoli yn ei hehangu i feysydd a rhaglenni gwaith eraill, ac i ardaloedd eraill yn Lloegr, gyda rhai o'r siroedd mwy yn dod yn rhan o hyn. Ymgymerodd yr Alban ag adolygiad a gwaith diwygio mawr i’r dirwedd sawl blwyddyn yn ôl, ac mae bellach yn mynd i’r afael â rhoi hyn ar waith a datblygu strategaeth oes newydd ar gyfer addysg oedolion.

Yn ogystal â'r newidiadau sydd i'w rhoi ar waith o ganlyniad i ddatganoli'r gyllideb addysg oedolion i Awdurdodau Cyfunol, ac o ganlyniad i’r Papur Gwyn AB (Llywodraeth y DU, 2021), mae gan lywodraeth y DU raglen ddiwygio helaeth a fydd yn cael effaith ar ddarparwyr. Mae'r rhaglen hon wedi cael ei sefydlu i wella ansawdd, i sefydlu system brentisiaethau a ariennir trwy ardoll cyflogwyr a, thrwy adolygiad o gyllid trydyddol, i sefydlu system decach i gefnogi addysg uwch. Nid oes gan Loegr naratif na chynllun dysgu gydol oes, ond mae hawl arfaethedig i fenthyciad dysgu gydol oes yn bodoli.

Mae'r papur gwyn AB yn Lloegr yn cynnig seilwaith newydd a phroses fusnes ddiwygiedig: er enghraifft, cyllid tair blynedd, methodoleg ariannu symlach, codi’r gwastad, prosesau atebolrwydd newydd a fyddai'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd pan fydd colegau'n methu, a mecanwaith cymorth trwy ehangu ar rôl y

Comisiynydd Addysg Bellach. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi mwy o ryddid i golegau Lloegr, ac yn darparu system atebolrwydd dynnach ar yr un pryd (Llywodraeth y DU, 2021).

Mae'r papur gwyn yn cadarnhau rôl awdurdodau lleol a Cholegau Addysg Bellach Cyffredinol, a bwriad y diwygiadau yw sicrhau bod y system ariannu sgiliau oedolion yn symlach, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn fwy effeithiol (Llywodraeth y DU, 2021: 10):

> **Mae'r papur yn datgan mai cyllid grant i golegau a darparwyr addysg awdurdodau lleol fydd y prif lif ariannu yn system newydd llywodraeth y DU ar gyfer sgiliau oedolion, fel y mae ar hyn o bryd. Bydd y model prentisiaeth, y mae iddo rôl arweiniol ar gyfer cyflogwyr, yn aros yr un fath.** (Llywodraeth y DU, 2021: 39)

Mae'r cynigion fel a ganlyn:

- Sefydlu Cronfa Sgiliau newydd i ddwyn ynghyd yr holl gyllid uniongyrchol ar gyfer sgiliau oedolion;
- Sicrhau y gall y system gefnogi darpariaeth sy'n seiliedig ar gymwysterau a darpariaeth nad yw'n seiliedig ar gymwysterau, fel y gall oedolion ailhyfforddi a gwella sgiliau yn y ffordd fwyaf effeithiol;
- Pennu dull sy'n seiliedig ar anghenion y gellid ei gyflwyno i ddosbarthu cyllid ledled y wlad;
- Pennu'r modd y gellir dosbarthu cyllid yn y ffordd fwyaf effeithiol rhwng colegau a darparwyr awdurdodau lleol mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, yn enwedig o ran y modd y gallai fformiwla symlach edrych pe byddai system sy'n seiliedig ar ariannu dysgwyr: i) yn cael ei chadw; a ii) yn cael ei symud i system ariannu ôl-weithredol;
- Darparu trefn ariannu aml-flwyddyn;
- Penderfynu pa hawliau a rheolau cymhwysedd a ddylai fod yn berthnasol yn y system newydd; a
- Pennu'r modd y byddai cyllid ar gyfer darparwyr hyfforddiant annibynnol a darparwyr eraill nad ydynt yn cael eu hariannu gan grantiau yn gweithio mewn system ddiwygiedig.

Dylid nodi nad oes rhaid i'r diwygiadau hyn gael eu mabwysiadu gan yr awdurdodau cyfun maerol datganoledig yn Lloegr ar gyfer addysg oedolion.

# Addysg heb fod yn ffurfiol

Prif ddarparwyr addysg heb fod yn ffurfiol a dysgu teuluol yng Nghymru yw gwasanaethau'r awdurdodau lleol a Dysgu Oedolion Cymru. Ariennir y darparwyr hyn yn rhannol trwy'r Grant Dysgu Cymunedol a ffioedd unigolion. Yn Lloegr, mae cyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cael ei gyfuno yn rhan o'r gyllideb addysg oedolion. Mae gan lawer o ddarparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned fynediad i'r gyllideb addysg oedolion a, lle bo angen, maent yn darparu cymwysterau galwedigaethol hyd at, ac yn cynnwys, lefel 3. Mae hyn yn rhoi llwybrau cynnydd i ddarparwyr ar gyfer eu dysgwyr, ac ystyrir hyn yn rhan o'r datrysiad sgiliau. Un o'r rhannau allweddol a mwyaf effeithiol o gynnig oedolion yn y gymuned yw dysgu teuluol. Mae hon yn rhaglen sy'n amlygu’r gorau mewn dysgu gydol oes gan ei bod yn un draws-genhedlaeth, mae'n dwyn ynghyd adnoddau o ysgolion a'r sector oedolion, ac mae’n cefnogi’r broses o roi’r cwricwlwm newydd ar waith. Drwy gydol y pandemig, mae dysgu teuluol wedi bod yn fenter ddefnyddiol iawn. Pe byddai wedi cael ei ehangu cyn dechrau pandemig COVID-19, mae'n debyg y byddai llawer mwy o rieni wedi cael gwell paratoad ar gyfer addysg gartref.

# Meysydd cymorth

Hyfforddiant athrawon yw'r maes lle ceir y gorgyffwrdd a'r croestoriad mwyaf ymhlith y pedair gwlad. Mae Cymru, yn draddodiadol, wedi hyfforddi llawer o athrawon sydd wedi mynd yn eu blaen i ddod o hyd i swyddi mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, gyda dargyfeirio cynyddol o gwricwlwm tebyg i bobl ifanc, gall y fframwaith cymwysterau ôl-16 gwahanol gael effaith o ran gallu athrawon cymwysedig o Gymru i ddod o hyd i swyddi yn Lloegr.

Er bod llawer o'r sector addysg yr un fath ag yng ngweddill y DU, mae Cymru wedi cyflawni naid flaengar o ran cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, ac erbyn hyn mae arni angen menter debyg ar gyfer addysg a sgiliau ôl-16. Mae angen i Gymru hefyd ystyried cynnig newydd ar gyfer oedolion ac ehangu hawlogaethau, fel y nodir yn ail adran yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r cysyniad o'r cwricwlwm newydd i bob grŵp oedran er mwyn meithrin y cysyniad o ddysgu gydol oes, a dylai ystyried adolygu'r cynnig galwedigaethol i oedolion a chyflwyno siarter i ddysgwyr yn dilyn gwaith Rhwydwaith Byd-eang y Dysgwyr (2009).**

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cydbwysedd yr holl gyllidebau ar gyfer ôl-19 a phennu pa un a oes yna ormodedd bellach yn gogwyddo tuag at ymadael ag AU, gan olygu mai prin iawn yw'r adnoddau ar gyfer yr 20% o'r oedolion yng Nghymru nad oes ganddynt sgiliau hanfodol ac sydd â chyfleoedd bywyd gwael.**

# Casgliad

Mae Cymru mewn sefyllfa dda i fabwysiadu strategaeth dysgu gydol oes ar gyfer pob oedran. Mae gan Lywodraeth Cymru a'i sylfaen sefydliadol gydnerth lawer o'r polisïau sylfaenol ar waith.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi buddion mabwysiadu strategaeth dysgu gydol oes ar gyfer pob oed. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y problemau sy'n wynebu Cymru, a'r modd y gall dysgu gydol oes a chaffael sgiliau helpu i gynnig atebion a fydd yn helpu'r economi a llesiant preswylwyr Cymru.

Yn y broses o adeiladu darlun o addysg ôl-16 yng Nghymru, rydym wedi cwrdd â llawer o staff rhagorol a phroffesiynol sydd â gofal am fyfyrwyr a dysgwyr y dyfodol yng Nghymru. Gan adeiladu ar y cwricwlwm newydd, Cwricwlwm i Gymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae yna gymhelliant i ddatblygu strategaeth dysgu gydol oes pob oed, ac mae'n bwysig ennyn brwdfrydedd rhanddeiliaid allweddol ynghylch hyd a lled posibl y dyfodol, a defnyddio'r momentwm hwn a'r dirwedd ôl-bandemig i wneud Cymru'n wlad ddysgu. Mae gweithredu'r CTER yn dilyn cyhoeddi Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2021 yn gyfle i gyflawni hyn.

Mae'r argymhellion a nodir ledled yr adroddiad, ac a ailadroddir isod, yn ymwneud â'r prif ganfyddiadau, sy'n cael eu crynhoi yma:

1. Nid oes yna weledigaeth gyffredinol na chytundeb ar y diffiniad o ddysgu gydol oes yn bodoli;
2. Nid oes yna naratif cyson, trawsbynciol;
3. Mae angen gwella hawliau;
4. Mae angen cytuno ar ddull o bennu blaenoriaethau;
5. Mae yna faterion sefydliadol sy'n gofyn am atebion, gan gynnwys:
    - **a)** yr angen i ddarparu eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau unigolion allweddol yn y system;
    - **b)** yr angen i ddatblygu dulliau gweithio sy'n helpu sefydliadau i barhau i gynnig darpariaeth o safon i ddysgwyr, ynghyd â systemau sy'n ei gwneud yn hawdd iddynt gynnig rhaglen gydweithredol, hyblyg ac ymatebol i fyfyrwyr a dysgwyr y dyfodol.

Mae'r canfyddiadau hyn a'r argymhellion cysylltiedig yn cyfeirio at yr angen i fynegi gweledigaeth gadarnhaol a chydlynol ar gyfer dysgu gydol oes, sy'n adeiladu ar y

sylfeini cadarn presennol; a bod Llywodraeth Cymru yn meithrin partneriaethau dibynadwy a blaengar sy’n meddu ar bwrpas a rennir.

# Argymhellion

### Argymhelliad 1

Bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ac yn hyrwyddo diffiniad pob oed newydd o ddysgu gydol oes y mae iddo weledigaeth a set o egwyddorion a dibenion sylfaenol sy'n cyfleu'r buddion i unigolion, cyflogwyr, cymunedau a'r gymdeithas ehangach, ac sy'n cwmpasu dimensiynau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol dysgu.

### Argymhelliad 2

Bod Llywodraeth Cymru yn integreiddio dysgu gydol oes i mewn i feysydd polisi ehangach, megis polisïau iechyd a llesiant, diwylliannol a newid yn yr hinsawdd, er mwyn sicrhau bod preswylwyr Cymru yn elwa ar fuddion ehangach dysgu. Dylai ddefnyddio systemau eraill y llywodraeth, megis galluoedd cynllunio a phrosesau caffael, i hwyluso mwy o gyfranogiad a'r defnydd ar y cyd o gyfleusterau.

### Argymhelliad 3

Bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y broses o ddatblygu ymateb ledled y DU i CONFINTEA VII dysgu gydol oes UNESCO yn 2022, ac yn arwain yn hynny o beth.

### Argymhelliad 4

Gan adeiladu ar Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bod Llywodraeth Cymru yn darparu set newydd ac estynedig o hawliau i lenwi'r bylchau yn y polisïau ac i fod yn sail i'r weledigaeth ar gyfer dysgu gydol oes, a bod y rheiny'n cael eu gwneud yn ddiriaethol ac yn hygyrch trwy gyfuniad o ddarpariaethau perthnasol sydd ar gael yn rhwydd ar wahanol lefelau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac sy'n cael eu cefnogi gan bolisïau fforddiadwyedd priodol.

### Argymhelliad 5

Yn rhan o gynnig dysgu gydol oes eang, dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i breswylwyr a gweithwyr:

- Rhwng 16 ac 18 oed ac 19 a 24 oed;
- Sydd â sgiliau hanfodol gwael;
- Nad oes ganddynt lefel galwedigaethol 2 na 3.

- Sydd mewn perygl o golli eu gwaith.

A rhoi strategaeth gydariannu ar waith ar gyfer cyfoethogi a rhagnodi cymdeithasol, ac ar gyfer lefel 4 ac uwch (llawn-amser, rhan-amser, modiwlaidd, ac yn rhan o weithgarwch cenhadaeth ddinesig SAU).

### Argymhelliad 6

Er mwyn goresgyn rhwystrau, yn ogystal â pharhau ag ymyraethau sy'n bodoli eisoes, dylid cael strategaeth aml-elfen sy'n cynyddu ymwybyddiaeth, yn annog oedolion a hoffai fod yn ddysgwyr, ac yn cymell sefydliadau addysgol a chyflogwyr i dderbyn y myfyrwyr hyn.

### Argymhelliad 7

Er mwyn cynyddu cyfranogiad ar gyfer addysg ôl-18 ac addysg oedolion, mae angen cwmpas daearyddol teg o gyfleoedd dysgu fel nad oes yna 'loteri cod post' o weithgarwch, boed hynny'n addysg oedolion yn y gymuned neu'n addysg uwch.

### Argymhelliad 8

Adolygu'r systemau ffioedd a thaliadau i sicrhau bod y cyrsiau hynny nad ydynt yn gymwys ar gyfer benthyciadau yn agored i bawb.

### Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru greu amgylchedd sy'n galluogi a thrin dysgu gydol oes fel system unedig sy'n edrych ar anghenion cyfannol dysgwyr er gwaethaf eu hoedrannau neu eu cefndiroedd, sy’n darparu gwell gwybodaeth, ac sy’n rhoi gwell cymorth i awdurdodau lleol, sefydliadau addysgol a dysgwyr.

### Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru roi i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil y dasg o sefydlu set gytûn o ganlyniadau ar gyfer y system dysgu gydol oes, set sy'n mesur sgiliau, cyflogaeth a buddion ehangach dysgu; a hynny trwy bartneriaethau sy'n seiliedig ar werthoedd a rennir; a chan bennu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer pob rhan o'r system.

### Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau trwy brosesau hyrwyddo ac eiriolaeth cenedlaethol, gan barhau â’r gwaith cynllunio lleol, a chefnogi sefydliadau lleol i bennu anghenion lleol a chenedlaethol a darparu ar eu cyfer.

### Argymhelliad 12

Dylai sefydliadau ymrwymo i bartneriaethau gwirfoddol i sicrhau bod ystod lawn o gyfleoedd dysgu gydol oes yn cael eu darparu, a bod eu cyfleusterau a'u gwybodaeth yn cael eu rhannu â'u cyd-weithwyr a'u cymunedau. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r partneriaethau gwirfoddol hyn yn gyson ac, os oes angen, fod yn barod i ddeddfu.

### Argymhelliad 13

Dylai'r Llywodraeth, trwy'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ymdrechu i ddarparu gweledigaeth glir ar gyfer dysgu gydol oes, eiriol dros ddysgu am oes, darparu sicrwydd ariannu tair blynedd, ac adeiladu sylfaen darparwyr ddibynadwy a all bennu, gyda chyngor gan yr RSP, y cynnig lleol.

### Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r cysyniad o'r cwricwlwm newydd i bob grŵp oedran er mwyn meithrin y cysyniad o ddysgu gydol oes, a dylai ystyried adolygu'r cynnig galwedigaethol i oedolion a chyflwyno siarter i ddysgwyr yn dilyn gwaith Rhwydwaith Byd-eang y Dysgwyr (2009).

### Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cydbwysedd yr holl gyllidebau ar gyfer ôl-19 a phennu pa un a oes yna ormodedd bellach yn gogwyddo tuag at ymadael ag AU, gan olygu mai prin iawn yw’r adnoddau ar gyfer yr 20% o’r oedolion yng Nghymru nad oes ganddynt sgiliau hanfodol ac sydd â chyfleoedd bywyd gwael.

# Cyfeirnodau


Yr Adran Addysg. (2019). ***Independent Panel Report to the Review of Post-18 Education and Funding.*** Adalwyd o: **www.gov.uk/government/publications/post-18-review-of-education-and-funding-independent-panel-report.**

Yr Adran Addysg. (2020). **'Further written evidence for the Education Select Committee Inquiry into Adult Skills and Lifelong Learning'**. Tystiolaeth y Pwyllgor Dethol. Adalwyd o: **https://committees.parliament.uk/writtenevidence/12122/pdf/**

Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. (2014). ***Adult Further Education – Outcome based success measures: Experimental Data 2010/11.*** Llywodraeth y DU. Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/publications/adultfurther-education-outcome-based-success-measuresexperimental-data-2010-to-2013"**

Barber, M. (2021). ***Accomplishment: How to Achieve Ambitious and Challenging Things*. **Allen Lane, Y Deyrnas Unedig: Penguin.

Cara, L. (2021). **'Lifelong learning and levelling up: building blocks for good health'**. Adalwyd o: **https://www.health.org.uk/publications/long-reads/lifelong-learning-and-levelling-up-building-blocks-for-good-health**

Comisiwn y Canmlwyddiant ar Addysg Oedolion. (2019). ***Adult Education and Lifelong Learning for 21st Century Britain 2020.*** Adalwyd o: **Error! Hyperlink reference not valid.**www.centenarycommission.org/.

Y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol. (2020). ***The Long Game: How to reboot skills training for disadvantaged adults.*** Adalwyd o: **https://www.centreforsocialjustice.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/CSJ-The-Long-Game.pdf**

Cyngor Ewrop. (1975). **'Permanent Education, A Framework for Recurrent Education: Theory and Practice'**. Adalwyd o: **https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED113506.pdf**

Cross, K. P. (1981). ***Adults as Learners: Increasing Participation and Facilitating Learning*** (Argraffiad 1af). San Francisco, UDA, Jossey-Bass Publishing

**Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.** Deddf Senedd Cymru. Adalwyd o: **https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/4/enacted/welsh?view=plain**

Dolan, P., Fujiwara, D., Metcalfe, R. (2012). **Papur Ymchwil BIS Rhif 90: *Review and Update of Research into the Wider Benefits of Adult Learning*.** Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, Llywodraeth y DU. Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/34671/12-1243-review-wider-benefits-of-adult-learning.pdf**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. (2015) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** Adalwyd o: **https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. (2020) ***Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020*.** Adalwyd o: **https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/adroddiad-cenedlaethaur-dyfodol-2020/**

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. (2019). ***Adult education works: Measuring the WEA effect.*** Adalwyd o: **https://www.wea.org.uk/sites/default/files/WEA_Impact_Report_2019-Final%20Version%20LR.pdf**

Cyngor Cyllido'r Alban. (2020). ***Coherence and Sustainability.*** Adalwyd o: **http://www.sfc.ac.uk/web/FILES/corporatepublications_sfccp052020/Review_of_Coherent_Provision_and_Sustainability_Phaae_1_Report.pdf**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2001). ***Y Wlad sy'n Dysgu – Dogfen Ymbaratoi ar gyfer Rhaglen Gynhwysfawr Addysg a Dysgu Gydol Oes hyd at 2010 yng Nghymru.*** Adalwyd o: **http://www.educationengland.org.uk/documents/pdfs/2001-learning-country-wales.pdf**

**Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.** Deddf Senedd y DU. Adalwyd o **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/21/section/31**

Y Democratiaid Rhyddfrydol (2019). **'Lifelong Learning for All'.** Adalwyd o: **www.libdems.org.uk/lifelong-learning.**

Dolan, P., Fujiwara, D., a Metcalfe, R. (2012). **Review and Update of Research into the Wider Benefits of Adult Learning 2012.** Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/34671/12-1243-review-wider-benefits-of-adult-learning.pdf**

Gambin, L., Beaven, R., Hogarth, T., Mai-Gillings, M., a Long, K. (2014) ***Methodological issues in estimating the economic value added of HE, FE and skills.*** Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/upl**

oads/attachment_data/file/305635/bis-14-668-methodological-issues-in-estimating-the-value-added-provided-by-higher-education-further-education-and-skills-intervention.pdf

Hayward, H., a Lord, A. (2014). ***Estimating the returns and lifetime productivity gains to GCSEs, A levels and apprenticeships Research report.*** Yr Adran Addysg. Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/387160/RR398A_-_Economic_Value_of_Key_Qualifications.pdf**

Hyde, M., a Phillipson, C. (2014) ***How can lifelong learning, including continuous training within the labour market, be enabled and who will pay for this? Looking forward to 2025 and 2040 how might this evolve?*** Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/463059/gs-15-9-future-ageing-lifelong-learning-er02.pdf**

Ipsos MORI, y Ganolfan Iechyd Meddwl, a Lawson, L. (2018). **Community learning mental health research project phase 2 evaluation report.** Yr Adran Addysg, Llywodraeth y DU. Adalwyd o:**https://www.gov.uk/government/publications/community-learning-mental-health-research-project**

Keep, E., Richmond, T., a Silver, R. (2020). ***Honourable Histories.*** Adalwyd o: **https://fetl.org.uk/publications/honourable-histories/**

Kelleher, S. (2020). ***England's Skills Puzzle: Piecing together further education training and employment.*** Policy Connect. Adalwyd o: **https://www.policyconnect.org.uk/sites/default/files/migrate/sc/news/528/fieldnewsdownloads/englandsskillspuzzle-piecingtogetherfurthereducationtrainingandemployment.pdf**

Lawrence, M., Roberts, C., a King, L. (2017). ***Managing automation: Employment, inequality and ethics in the digital age.*** Comisiwn yr IPPR ar Gyfiawnder Economaidd. Adalwyd o: **https://www.ippr.org/publications/managing-automation**

Llafur. (2019). ***The Future is Ours to Learn*** **– Adroddiad Terfynol Comisiwn Dysgu Gydol Oes y Blaid Lafur**. Adalwyd o: **https://labour.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Lifelong-Learning-Report-2019.pdf**

Llywodraeth Cymru. (2015). **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.** Adalwyd o: **https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/**

Llywodraeth Cymru. (2017). **Dysgu Oedolion yng Nghymru**. Adalwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/dysgu-oedolion-yng-nghymru.pdf

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Cwricwlwm i Gymru: trosolwg.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-trosolwg https://gov.wales/curriculum-wales-overview

Llywodraeth Cymru. (2020b). **Llythyr ariannu CCAUC.** Adalwyd o: https://www.hefcw.ac.uk/wp-content/uploads/2020/09/HEFCW-Remit-letter-2020-21-English-August2020.pdf

Llywodraeth Cymru. (2020c). **Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) – Gweledigaeth Strategol.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/egwyddorion-ar-gyfer-newid-addysg-a-hyfforddiant-ol-orfodol.pdf

Llywodraeth Cymru. (2021a). **Lefel y cymwysterau uchaf a ddelir gan oedolion o oed gweithio: 2020.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/lefel-y-cymwysterau-uchaf-ddelir-gan-oedolion-o-oed-gweithio-2020-html

Llywodraeth Cymru. (2021b). Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). https://senedd.cymru/media/bl0ax3sb/pri-ld4625-w.pdf

Llywodraeth Cymru. (2021c). **"Bydd Gwarant i Bobl Ifanc yn helpu i sicrhau nad oes cenhedlaeth goll yng Nghymru", Vaughan Gething.** https://gov.wales/young-persons-guarantee-will-help-ensure-theres-no-lost-generation-wales-vaughan-gething**Datganiad i'r wasg.** Adalwyd o: https://llyw.cymru/bydd-gwarant-i-bobl-ifanc-yn-helpu-i-sicrhau-nad-oes-cenhedlaeth-goll-yng-nghymru-vaughan-gething

Llywodraeth y DU. (2020). **Datganiad ar Sero Net.** Adalwyd o: https://www.gov.uk/government/news/uk-calls-for-greater-global-ambition-as-un-finds-world-warming-faster-than-expected

Llywodraeth y DU. (2021). **'Skills for Jobs: A New Further Education Funding and Accountability System'.** Dogfen Ymgynghori. Adalwyd o: https://consult.education.gov.uk/fe-funding/reforms-to-funding-and-accountability/user_uploads/skills-for-jobs-a-new-further-education-funding-and-accountability-system-1.pdf

Maehl, W. (2020). **'Lifelong Learning – Evolution of the Lifelong Learning Movement, Implementation of Lifelong Learning, Ongoing Issues in Lifelong Learning, Conclusion.'** StateUniversity.com. Adalwyd o: https://education.stateuniversity.com/pages/2181/Lifelong-Learning.html#ixzz726BeChNg

Maguire, S. (2021). ***Raising the Age of Participation to 18.*** Y Sefydliad Ymchwil Polisi, Prifysgol Caerfaddon/Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Raising-the-Age-of-Participation-to-18.pdfhttps://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/Raising-the-Age-of-Participation-to-18.pdf**

Marples, R. (2010). ***The Aims of Education. International Encyclopaedia of Education.*** 3ydd Argraffiad. Llundain: ELSEVIER

OECD. (2019). **'Individual Learning Accounts: Design is key for success'.** Adalwyd o: **https://www.oecd.org/els/emp/individual-learning-accounts.pdf**

OECD. (2021). ***OECD Skills Outlook 2021: Learning for Life****.* OECD Publishing. Adalwyd o: **https://www.oecd.org/education/oecd-skills-outlook-e11c1c2d-en.htm**

Prifysgol Caergrawnt. (2019). **WER Layout Online**. Adalwyd o: **https://www.bennettinstitute.cam.ac.uk/media/uploads/files/WER_layout_online_July_2019_final_doubles.pdf**

Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin (2020). ***A plan for an adult skills and lifelong learning revolution Third Report of Session 2019–21.*** **Adroddiad, ynghyd â chofnodion ffurfiol yn ymwneud â'r adroddiad.** Adalwyd o: **https://committees.parliament.uk/publications/4090/documents/40532/default/**

RCU. (2021). **Data Addysg Oedolion Cymru: Addysg Bellach ac Addysg Oedolion yn y Gymuned 2021.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/projects/**

Rhwydwaith Byd-eang y Dysgwyr (2009). **Siarter Ryngwladol Dysgwyr Sy'n Oedolion.** Adalwyd o **https://uil.unesco.org/fileadmin/keydocuments/AdultEducation/en/CharterEnglish.pdf**

Rutter, J., Malley, R., Noonan, A., a Knighton, W. (2012). ***It Takes Two: How to create effective relationships between government and arm's-length bodies.*** Adalwyd o: **https://www.instituteforgovernment.org.uk/sites/default/files/publications/it_takes_two_final_0.pdf**

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith. (2019). **'Barriers to learning'**. Adalwyd o: **https://learningandwork.org.uk/what-we-do/lifelong-learning/adult-participation-in-learning-survey/barriers-to-learning/**

Schuller, T. (2017). ***What are the wider benefits of learning across the life course?*** Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/635837/Skills_and_lifelong_learning_-_the_benefits_of_adult_learning_-_schuller_-_final.pdf**

Sefydliad Cyhoeddus a Dysgu a Gwaith Kantar. (2018) ***Decisions of adult learners.*** Yr Adran Addysg, Llywodraeth y DU. Adalwyd o: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742108/DfE_Decisions_of_adult_learners.pdf**

Senedd y DU. (2021). **Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16.** Adalwyd o: **https://bills.parliament.uk/bills/2868**

Stanistreet, P. (2018). ***Reimagining Lifelong learning.*** FETL. Adalwyd o: **http://fetl.org.uk/wp-content/uploads/2018/06/2354-FETL-lifelonglearning-web-1.pdf**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2021). **Nomis – Official Labour Market Statistics.** Adalwyd o: **https://www.nomisweb.co.uk/**

UNESCO. (2020). **A new vision for lifelong learning and a world worth living in.** Adalwyd o: **https://en.unesco.org/futuresofeducation/news/new-vision-lifelong-learning-and-world-worth-living**

What Works Wellbeing. (2017). **Briff ar addysg oedolion**. Adalwyd o: **https://whatworkswellbeing.org/wp-content/uploads/2018/12/adult-learning-Nov17.pdf**

Williams, R. (1961). ***The Long Revolution.*** Parthian Books.

Ystadegau Cymru. (2021). **Cofrestriadau myfyrwyr o Gymru yn ôl blwyddyn, lefel a dull astudio.** Adalwyd o: **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Students/Enrolments-at-Welsh-HEIs/enrolmentsduringtheyear-by-level-mode-year**

# Atodiad 1 – Cyfranwyr

### Y Panel Arbenigwyr

**Jeff Greenidge** – Cyfarwyddwr Amrywiaeth, Y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant a Chymdeithas y Colegau
**Dr John Graystone** – Cadeirydd, Addysg Oedolion Cymru
**Iestyn Davies** – Prif Weithredwr Colegau Cymru
**Rob Humphreys CBE** – Aelod o'r Cyngor, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

### Y Ford Gron:

**Yr Athro Alison Fuller** – Athrofa Addysg UCL
**Rob Humphreys CBE** – Aelod o'r Cyngor, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
**Yr Athro David James** – Prifysgol Caerdydd
**Yr Athro Tom Schuller** – Cadeirydd, Prisoner Learning Alliance
**Yr Athro Syr Alan Tuckett OBE** – Cyn Brif Weithredwr, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion
**Yr Athro Andrew Westwood** – Prifysgol Manceinion

### Cyfweliadau

**Yr Athro Syr Adrian Webb** – Is-gadeirydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac aelod o Fwrdd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
**Louise Casella** – Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored yng Nghymru
**Yr Athro Syr Alan Tuckett OBE** – Cyn Brif Weithredwr, y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion
**David Hagendyk** – Cyfarwyddwr, Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru
**Kay Smith** – Pennaeth Ymgyrchoedd, Polisïau a Datblygu, Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru
**Shirley Rogers** – Cyfarwyddwr Cyflawni a Datblygu, Gyrfa Cymru
**Deri Bevan** – Swyddog Dysgu a Chymorth yr Undebau, TUC Cymru
**Amanda Wilkinson** – Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru
**Kieron Rees** – Pennaeth Polisïau a Materion Allanol, Prifysgolion Cymru

## Manylion am yr Awduron

**Dr Susan Pember CBE** yw Cyfarwyddwr Polisïau HOLEX, y corff proffesiynol ar gyfer darparwyr addysg oedolion.

Mae **Dr Helen Tilley** yn Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Jack Price** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Dr Larissa Peixoto Gomes** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Dr Jack Price**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345 info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru